Margaret Thomas
Casei Deu Shop Llandyssul

YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

EBRILL, 1869.

EISIAU MWY O FYWYD CREFYDDOL YN EIN HEGLWYSI.

Yn tudalen 67 o'n rhifyn diweddaf y mae ychydig o nodiadau bywiog a tharawiadol iawn gan "D." Yr ydym ni yn hollol o'r un farn ag ef ar y pwnc. I fod ein syniadau crefyddol yn ennill tir yn ngwersylloedd yr enwadau Trindodol er gwaethaf pob ymdrech i'w cadw allan, nid oes dim ammheuaeth. Mae'r peth yn ffaith. Symlrwydd, eglurder, rhesymoldeb, ac ysgrythyroldeb y syniadau Undodaidd am y Bod o Dduw a'i briodoliaethau gogoneddus, am berson a chenadwri yr Iachawdwr, am faddeuant pechod, dyledswyddau dyn, nefoedd ac anfarwoldeb, mewn gair, am bynciau gwir grefydd, ydynt yn gwneuthur ein syniadau yn anwrthwynebol. Gallasai "D" hefyd sylwi mai Undodaidd i'r eithaf yw llais *(tone)* y mwyrif o brif newyddiaduron Llundain—dyddiol ac wythnosol—a rhai o'r *Monthly Periodicals* a'r *Reviews*. Mae'r ffaith hon yn adnabyddus i bawb sydd yn eu darllen. Os ydyw ysgrifenwyr galluocaf Lloegr yn proffesu credu yr athrawiaethau a gamenwir "iawnffyddiog," mae yn amlwg nad ydynt yn cael dim dylanwad ar eu meddyliau. Undodiaid trwyadl ydynt yn eu golygiadau crefyddol.

Mae y ffaith hon yn dra annogaethol i ni fel Undodiaid, sef fod ein syniadau crefyddol yn ymdaenu yn mhlith ein brodyr Trindodaidd, a hyny heb nemawr neu ddim ymdrech o'n tu ni. Ond onid oes lle i ofni y twyllwn ein hunain i feddwl nad oes gan hyny ddim cymmaint o eisiau i ni ymdrechu o blaid y gwirionedd, oblegid yn mlaen ar gynnydd yr aiff er gwaethaf pob rhwystrau, hyd yn nod pe na wnelem ni ddim drosto? Nid oes dim sicrwydd nad yw y dwyll-dyb hon eisioes wedi dylanwadu yn niweidiol i raddau ar ein henwad—wedi ein gwneuthur yn fwy diymdrech o blaid ein ffydd nac y dylem fod, yn Nghymru a Lloegr. Gan nad beth yw'r achos, mae yn amlwg i bawb fod diffyg ymdrech yn ein plith: rhyw farweidd-dra ysbryddol—rhyw beth yn debyg iawn i ddifaterwch yn nghylch ein crefydd. Er fod ein golygiadau crefyddol, yn ddiamheu, yn fwy rhesymol ac ysgrythyrol, yn hawddach i'w hamgyffred gan bob meddwl, na'r rhai Trindodaidd, ac y fath a ymgynnygant yn naturiol i ddyn, er hyny nid yw ein tai cyrddau mwyaf llewyrchus yn agos llawn, ac y mae rhai o honynt yn mron yn wâg. Os nad yr achos yw ein bod yn tybied y cyflawna eraill ein *mission* heb eisiau i ni wneyd dim, pa fodd mae i ni gyfrif am yr oerfelgarwch a'r difaterwch sydd yn

ein plith? Nid oes dim lle i amheu nad yw hyn yn ffaith. Mae diffyg sel yn ein plith. Yn fynych, rhyw esgus bach gwael a geidw lawer o honom ar y Saboth rhag myned i'r cwrdd—"bwrw gwlaw," "dolur pen," "wedi blino," "cysgu yn rhy hir." Dyma'r fath esgusodion distadl sydd gan lawer dros absenoli eu hunain o'r cyfarfod. Ond cynted ag y delo dydd Llun, os y dygwydd fod ffair neu farchnad, neu ryw gyrchfa bleserol yn y gymmydogaeth, gwelir hwy yno gyda'r cyntaf er gwaethaf y dolur pen ddoe, a'r cysgu, a'r gwlaw. Ni ddylai hyn fod, frodyr, ac ni fyddai ychwaith, pe meddem fwy o sel dros ein hegwyddorion crefyddol. Pe byddai mwy o ymdrech yn ein plith, ni fyddai ein capeli mor wag ac oer. Cyrchem iddynt nid yn unig unwaith ar y Saboth, ond hefyd yn fynych ar hyd yr wythnos i gadw cyfarfod gweddi, ac i enyn y tân ysbrydol. Ofer yw i ni ddisgwyl bendith Duw ar ein hachos tra fyddom ni ein hunain yn ddifater yn ei gylch. Bendith Duw yn wir! Ar ben yr ymdrechgar a'r difrifol mae ei fendith Ef yn disgyn, ac nid ar y difater a diymdrech. Ar achos crefyddol y cyfryw yn unig y disgyn bendith y nefoedd ag sydd yn barod i offrymu pob peth bydol dros eu crefydd, ïe, a'u bywyd pe byddai eisiau. Ar offrwm Abel yr edrychodd yr Arglwydd. Paham? Am iddo roddi prawf o'i ddifrifoldeb. Rhoddodd i'r Arglwydd y peth goreu oedd ganddo—blaenffrwyth ei ddefaid a'u brasder hwynt. Nid felly y gwnaeth yr hen Gain gybyddlyd. Rhoddodd ef i'r Arglwydd rhyw hen wehilion oedd ganddo ag nad oedd o ddim gwerth yn ei olwg. Cadwodd yr ŷd goreu iddo ei hunan. Mae lle i ofni yn wir ein bod ninnau yn rhy debyg i Cain—yn rhoddi i'r Arglwydd wehilion ein cyfoeth, ein serch, ein hamser, a'n meddwl, ac yn cadw yr haidd, a'r ceirch, a'r gwenith goreu, i ni ein hunain.

Yn wir, mae eisiau diwygiad crefyddol yn ein plith, frodyr, nid diwygiad y neidio a'r baldorddan, ond y galon—mwy o serch at ein crefydd, mwy o ymdrech ac o sel drosti. Gyda diwygiad o'r fath hyn—mwy o ysbryd a gwresogrwydd crefyddol—gwelid llewyrch gwell ar ein heglwysydd. Yn mhen amser, adgyweirid ein capeli sydd yn awr yn cael eu gadael i syrthio i'w pwll, a llenwid eraill â gwrandawyr ag sydd yn mron yn wâg. Rhoddwn ein calonau i'r Arglwydd, ac yna daw grân gwell ar ein hachos. Eisiau rhoddi mwy o'r galon i Dduw sydd, a llai o honi i'r byd. Dyma lle mae'r diffyg yn bod—YN Y GALON. Gweddïwn, frodyr, am fwy o ddifrifoldeb crefyddol yn ein calonau!

CYMDEITHAS Y NEF.

YSTYRIWN yn awr, am ychydig, y dedwyddwch sydd yn tarddu o gymdeithas creaduriaid rhesymol, wedi eu bywiogi ag egwyddorion a teimladau santaidd.

Y mae un o brif achosion trueni yn y byd hwn yn codi oddiar dueddiadau cenfigenus, ac ymddygiad anfoesgar ei drigolion. Y mae y balchder, yr uchelgais, y nwydau digofus, y twyll, y genfigen, a'r dialedd, sydd yn llywodraethu ar galonau y rhan fwyaf o ddynolryw,—wedi achosi mwy o drueni a dinystr yn mysg dynion nag a wnaeth y rhyferthwy a'r ystorm, y ddaeargryn a'r rhwygiadau tanllyd, a holl ymryson elfenau natur yn

nghyd. Y mae trachwant uchelgais wedi gorchuddio teyrnasoedd â sachliain a lludw, a chydraddu dinasoedd â'r llawr—wedi troi trefydd yn garneddi o adfeiliau myglyd—wedi troi tiroedd ffrwythlawn yn anialwch—wedi halogi y ddaear â gwaed dynion—wedi cigyddio miloedd a miliynau o honynt—yn llanw trigfanau dedwydd llawer teulu ag wylofain, a galar, a gwae. Y mae *annghyfiawnder* a thrais wedi ysbeilio cymdeithas o'i hiawnderau a'i breintiau, a'r amddifad o'u mwyniant anwylaf. Y mae Coelgrefydd a dialedd gwedi gwneyd ebyrth o'u miliynau—wedi ymlid heddwch o'r byd,—ac wedi gŵyrdroi trefn cymdeithas. Y mae gwadu y gwirionedd mewn bargeinion, ac addewidion, wedi suddo cenhedloedd mewn dinystr—wedi dadymchwel sylfaeni llwyddiant y cyhoedd, ac wedi difa enw da a chysur teuluoedd—wedi dyrysu meddyliau miloedd a miliynau, ac wedi taflu dirmyg ar ddatguddiad y nef, a darganfyddiadau gwyddoriaeth. Y mae malais, cenfigen, digofaint, a theimladau cyffelyb, wedi creu cynhenau ac ymrysonau sydd wedi aflonyddu heddwch dynion, teuluoedd a chymydogaethau, a chwerwi eu holl fwynhad. Nid yw yn ormod dywedyd, fod mwy na naw rhan o bob deg o'r drygau, y gofidiau, a'r trallodion sydd wedi cyfarfod dynion, wedi cael eu hachosi gan weithrediad yr egwyddorion a'r nwydau dieflig hyn.

Pa fath ddedwyddwch, gan hyny, a raid fod wrth uno mewn cymdeithas mewn lle na ddaw y fath deimladau echrys byth i daenu eu dylanwad niweidiol, a'r lle y mae cariad, heddwch, a chyd-undeb, parch, cydradd, caredigrwydd brawdol, a chariad yn teyrnasu byth! Rhaid y bydd ymadael o fyd, lle y mae hunanoldeb a dygasedd, cynhenau ac ymrysonau, rhyfeloedd a dinystr, mor gyffredinol, â myned i olygfa o fwynhad lle y mae gwenau haelfrydedd yn pelydru o olygon creaduriaid gogoneddus, yn ddirifedu, yn derchafu yr enaid i'r llawenydd mwyaf, ac yn sylfaen yr holl "ddigrifwch sydd ar ddeheulaw Duw yn dragywydd." Hyd yn oed yn y byd hwn, yn nghanol y drygau naturiol sydd yn awr, O! y fath olygfa o ddedwyddwch a welid pe byddai yr holl ddynion dyngarol sydd yn awr, neu a fu, yn addurno ein natur yn yr oesau a aethant heibio, gael eu cynull yn nghyd yn un gymdeithas, ac i gyfeillachu â'u gilydd, yn unig, heb eu blino gan "y byd sydd yn gorwedd mewn drygioni." Tybiwn fod cymdeithas ëang yn cael eu ffurfio o gymeriadau fel Moses, Elias, Jeremiah, Daniel, Paul, Iago, a Ioan, yr Efengylwyr, dynion a'i cyfrifent yr anrhydedd mwyaf i ogoneddu Duw, a helaethu iachawdwriaeth dynion,—a'r fath ddyngarwyr â Howard, Clarkson, Venning, a Sharpe, y rhai a ddangosasant y serchogrwydd mwyaf haelionus, ac a dreuliasant eu hoes mewn llafur diflino i wella cyflwr y carcharor—gwaredu y truenus yn mhob gwlad—rhyddhau y caeth oddiwrth ei orthrymydd—tywallt goleuni ac awyr bywiol i ddaeargelloedd afiachus, a gwasgaru bendithion yn mysg dynolryw yn mhob man,—y fath athronwyr treiddgar a Locke, Newton, a Boyle, y rhai yr oedd eu galluoedd cryfion yn cofleidio y bydoedd defnyddiol a meddylgar, ac a ychwanegasant at eu cyrhaeddiadau meddyliol, addfwynder, gostyngeiddrwydd, hynawsedd tymher, a haelfrydedd cyffredinol,—y fath dduwinyddion rhagorol â Watts, Doddridge, Bates, Hervey, Edwards, Lardner, a Dwight, y rhai yr oedd eu calonau yn llosgi mewn eiddigedd i ledaenu gogoniant eu

Hathraw Dwyfol, ac i helaethu daioni presenol a thragwyddol eu cyddynion. Byddai cymdeithas yn barhäus gyda'r cyfryw rywbeth yn dynesu yn agos at baradwys ar y ddaear, hyd yn oed gyda'r anmherffeithrwydd a'r gwendidau oedd yn nglŷn wrthynt yn y bywyd hwn.

Ond tybier fod y cyfryw rai wedi eu diosg o bob anmherffeithrwydd meddyliol a moesol, ac wedi eu cynysgaeddu a phob egwyddor santaidd a rhinwedd ag y gellir addurno creadur â hwy, ac â galluoedd treiddgar mewn ymarferiad gwastadol, yn preswylio mewn byd, o'r lle y mae yr holl ddrygau naturiol wedi ei symud ymaith, a phob golygfa o ogoniant yn cyfarfod y llygaid ar bob cam, ac ëangder diderfyn yn ymestyn ger bron y meddwl pur. Tybier yn mhellach am greaduriaid rhesymol wedi eu donio â galluoedd rhagorach—wedi teithio trwy eithafion y greadigaeth, a chyfeillachu â thrigolion deng mil o fydoedd, ac wedi dysgu hanes y goruchwyliaethau Dwyfol tuag atynt, ac wedi eu hysprydoli â phob teimlad dymunol, â gostyngeiddrwydd a chariad,—tybier fod cenhadau o'r desgrifiad hwn yn cael eu hanfon yn achlysurol i'r gymdeithas nefol hon, o fydoedd eraill, ac yn adrodd fel y mae gweithredoedd nerthol Jehovah yn cael eu hamlygu yn yr ardaloedd hyny,—tybier fod "y dyn Crist Iesu," yn llywyddu yn eu mysg, yn uwchder ei ogoniant, ac yn amlygu ei ragoriaethau i bob llygad,—tybier fod y bodau gogoneddus mewn ymddiddanion, myfyrdodau, ymchwiliadau, a diolchgarwch, ac addoliad, a gwasanaeth o haelfrydedd, gyda'u gilydd, mewn modd priodol i'r sefyllfa y preswyliant ynddi, ac i urddas eu natur,—ac ni allwn ffurfio darlun egwan o wynfyd cymdeithasgar y byd nefol. Dyma gymdeithas y nef—cymanfa yr eglwys fuddugoliaethus; a byddai raid ein bod erbyn hyn wedi ein hysbrydoli â chwaeth dwyfol, at yr hyn y mae yn rhaid i ni yn awr gael ein parotoi o ran teimlad a thuedd y meddwl, os dysgwyliwn gael ein derbyn rhagllaw i'r "tŷ," nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd."

O gymdeithas fendigedig a gogoneddus! lle nad oes anghydfod byth yn codi, lle nad oes yr un ysbryd drygnawsaidd byth yn aflonyddu eu cymundeb cyffredinol, lle nad oes drwg-ewyllys byth yn cael ei amlygu, lle nad oes yr un brofedigaeth i gyffroi tawelwch y meddwl, lle nad oes yr un teimlad dialgar yn codi yn erbyn yr un o drigolion mwyaf llygredig y byd, lle nad oes anwiredd yn cael ei fynegi, lle nad oes ffolineb, chwerwedd, na chyfeiliornad byth yn dyfod i mewn, lle nad oed gŵg yn eistedd ar ael neb, na chwmwl yn cuddio tywyniad heulwen haelfrydedd,—lle y mae "santeiddrwydd i'r Arglwydd" yn ysgrifenedig ar bob calon, lle y mae yr holl aelodau wedi eu cysylltu yn nghyd yn rhwymau annatodol parch ac anwyldeb, lle y mae cyfeillgarwch wedi ei ddechreu na ddatodir mo hono byth, lle y mae cariad yn dysgleirio yn mhob mynwes, a haelfrydedd yn tywynu yn mhob gwedd, lle y mae rhagoroldeb moesol yn ei uwchder, ac yn ei amrywiaeth dymunol, lle y mae "tyrfa fawr, na ddichon neb ei rhifo, o bob cenedl, a llwyth, ac iaith, a phobl," yn uno âg angylion, archangylion, tywysogaethau, ac awdurdodau, i chwyddo cân iachawdwriaeth i'r Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc,, ac i'r Oen a laddwyd, yn dragywydd! Chwychwi, lu gogoneddus y nef, sydd yn gweini i etifeddion iachawdwriaeth ar y ddaear!—chwi, waredigion, o'n byd ni, "y rhai a ddaethant allan o'r cystudd mawr, ac sydd yn awr ger bron gorsedd

Duw, ac yn ei wasanaethu ddydd a nos yn ei deml!" Yr ydym yn hiraethu am uno yn eich cymdeithas fendigedig. Yr ydych yn preswylio yn mysg golygfëydd o orfawredd, a dysgleirdeb bythol ddydd; yr ydych yn dragywydd ddiogel oddiwrth bechod a galar, a phob allonyddwch. Y mae eich llawenydd yn ddiball, yn gynhyddol, ac yn fythol newydd,—y mae eich rhagolygiad yn ddiderfyn fel y greadigaeth, a'ch parhad yn sicr fel gorsedd y Duw tragwyddol! Yr ydym ni "yn preswylio mewn tai o glai, a'u sail yn y llwch," yr ydym yn teithio yn ngwlad y "pydewau a'r maglau," ac yn "mro cysgod Angau," yr ydym yn rhodio yn mysg golygfëydd o alar a dioddefaint, ac yn cael ein cylchynu â "phebyll cynhen," ac yn agored i falais "gwefusau twyllodrus a geneuau celwyddog." Yr ydym yn codi ein llygaid o'n "carchar daearol," yn yr hwn yr ydym yn awr fel "carcharorion gobeithiol," at eich trigfanau dedwydd chwi, gyda dymuniad hiraethlawn, gan waeddi, "O na byddai i ni adenydd Seraph, fel yr ehedem ymaith i orphwys yn eich cartrefle dedwydd!" Yr ydym yn hiraethu am gael uno â chymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig, a ysgrifenwyd yn y nefoedd—ysbrydoedd y cyfiawn a berffeithiwyd—myrddiwn o angylion—Iesu, Cyfryngwr y Testament Newydd, a Duw barnwr pawb.

Bydded i Dad y trugareddau, yr hwn a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywiol am etifeddiaeth anllygredig, ein nerthu i barhau yn ein gyrfa Gristionogol, a'n cadw yn ddigwymp, drwy amddiffyniad ei Anfeidrol Allu, trwy ffydd i iachawdwriaeth; ac mewn amser cyfaddas, drefnu i ni fynediad helaeth i dragwyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. Iddo y byddo y gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

T. Dick, Ll.D.

Y MAE DIGON O AMSER.

Dyma un o'r brawddegau gwaethaf, mewn ystyr, ag a wyddom ni am dani. Ynddi ei hun y mae o'r goreu; y mae yn wir, oblegid amlwg yw fod amser priodol i bob peth yma ar y llawr. Mae y Creawdwr doeth a da wedi gofalu rhoddi digon o amser i ti a minau, gyfaill, i gyflawni dyledswyddau pwysig bywyd yn y fath fodd ag i wneud ein bywyd yn fywyd o hapusrwydd, ar y cyfan, ac i wneud y paratoadau hyny sydd ofynol i gael mynediad helaeth i mewn i lawenydd ein Harglwydd yn y dydd a ddaw; ond yr ydym am awgrymu fod gwir feddwl y frawddeg yn cael ei wyrdroi yn enbyd, ac felly mae yr hyn sydd wir, ac yn dda ynddo ei hun yn dyfod yn achos o ddrwg, neu o'r canlyniadau mwyaf anymunol ac echryslon.

Gellesid cyflawni llawer iawn o bethau dros ben pe dechreuid mewn amser priodol; ond oherwydd fod digon o amser, fel y dywedir, maent yn cael eu gohirio dydd ar ol dydd, awr ar ol awr, hyd nes oedd yn rhŷ ddiweddar i'w cyflawni o gwbl, ac y mae llawer o ddynion wedi gorffod ddioddef yn dost oblegid eu hanmrydlondeb, ond ar yr un pryd, y mae y fath beth a thynu da o ddrwg. Y mae yn bossibl tynu gwers lesiol oddiwrth y sylwadau yma. Mae y wenynen yn pigo mêl allan o'r ysgallen, yr hwn sydd lawn mor felus â'r hwn mae yn bigo allan o'r rhosyn, yr hwn sydd yn pêr-arogli yr awyr.

Gall yr hwn sydd am wella ei hunan wrth astudio y natur ddynol, a gwylied y rhagluniaeth ddwyfol, ddysgu llawer o ddoethineb oddiwrth ffaeleddau blaenorol, ac i droi mewn ystyr yr hyn oedd yn achosi poen i achosi dedwyddwch parhaus. Ac yn wir mae y dyn hwnw sydd yn gwylied ar symydiadau a chyflawniadau eraill, ac yn sylwi, gydag un gradd o fanylwch, ar bob peth o'i amgylch yn rhwym o fod yn annoeth iawn os na fydd rhyw gymaint yn well o hyny.

Y mae un o ddoethion y ddaear yn dywedyd fod amser i bob peth dan haul. Amser i chwerthin, ac amser i wylo. Amser i fod yn llawen, ac amser i fod yn drist. Amser i wneyd masnach, amser i weithio, ac amser i orphwys; ond nid yw yn d'weyd un gair yn nghylch amser priodol i gael ei ddiffrwytho. Nid yw yn dywedyd fod dim amser gan neb, pwy bynag, i'w dreulio yn ofer, neu i sefyll yn segur ar hyd y dydd. Y mae yn siarad hefyd am amser i farw, wrth yr hyn mae i ni ddeall fod yr Hwn a wnaeth yr haul i reoleiddio y dydd, a'r lloer y nos, wedi rhoddi digon o amser i ni, a dim mwy na digon, i gyflawni ein holl ddyledswyddau fel dynion a Christionogion, ac i fwynhau pob pleser rhesymol, i wneuthur y byd yn well oblegid ein bod ni wedi byw ynddo, ac felly i gymhwyso ein hunain i fwynhau cymdeithas rhagorolion y ddaear mewn byd arall. Oes, gyfaill, y mae digon o amser gan bob dyn, nad beth ydyw ei sefyllfa a'i amgylchiadau yn y byd, i weithio allan ei iechydwriaeth ei hun; ond er gwaetha'r modd, nid pawb sydd yn gwneuthur felly; nid pawb sydd yn defnyddio eu hamser yn y modd goreu, neu yn y fath fodd ac i ychwanegu at eu gwybodaeth a'u rhinwedd yn barhäus, ac i fod yn llesiol ac yn ddefnyddiol yn y cylch maent yn troi ynddo. Nid pawb sydd yn gosod yr esiamplau a ddylent o flaen y genedl sydd yn codi. Ystyriaeth o hyn ddylai ddylanwadu er gwell arnat ti a minau.

Er i fod pawb, braidd, yn cyfaddef fod digon o amser, ac mai eu dyledswydd yw dwyn cynghor yr Apostol Pedr i ymarferiad pan yn dywedyd, "A hyn yma hefyd, gan roddi cwbl-ddiwydrwydd, chwanegwch at eich ffydd, rinwedd; ac at rinwedd, wybodaeth; ac at wybodaeth, gymedrolder; ac at gymedrolder, amynedd; ac at amynedd, dduwioldeb,; ac at dduwioldeb, caredigrwydd brawdol; ac at garedigrwydd brawdol, gariad." Nid pawb sydd yn ymddwyn yn unol â hyn. Pan yn edrych gyda gradd o fanylwch ar ymddygiadau llawer o Gristionogion proffesedig, gellir meddwl nad ydynt ddim wedi sylwi dim ar y fath eiriau erioed; ond pe buasai pob dyn sydd yn galw ei hunan yn ddisgybl i Ben Bugail mawr yr Eglwys yn byw yn ei broffes, neu yn dilyn ol traed ein Hiachawdwr yn ofalus, nid oes un amheuaeth yn ein meddwl ni na fuasai agwedd well nag sydd o lawer ar ein byd. Ni fuasem yn clywed cymaint am ladrad, na llofruddiaeth. Ni fuasai dim twyll ac anonestrwydd yn ein byd, yr hyn, er galar, nis gellir dywedyd gydag un gradd o gymhwysder am dano yn y dyddiau hyn. Ni fuasai ein carcharau mor llawn, ac ni fuasai ddim cymmaint o dylodi; ac hefyd ni wastreffid cymaint o feddianau, ac o amser gwerthfawr.

Digon o amser meddai y bachgen ieuanc pan yn cael adgofio fod amser wrth ei waith o hyd, tra y mae efe yn ei ddiffrwytho pryd y dylai fod yn effro. Mae ei amser yn ehedeg ymaith, ac yntau yn d'od i'r ysgol cyn

bod y wers yn haner parod, ac yna yn gwyllti, ac yn teimlo yn bob peth ond cysurus. Mae y dyn ieuainc yn meddwl fod digon o amser ganddo i ddechreu cynilo a pharatoi erbyn yr hyn sydd o'i flaen, sef afiechyd a henaint, efallai. Y mae digon o amser i ddiwyllio y meddwl, ac i ymgyfoethogi, ond nid yw yr adeg hyny byth yn gwawrio arno ef. Mae yr hyn ddylai gael ei gyflawni heddyw yn cael ei adael hyd y fory, neu ryw adeg mwy cyflëus; ond er ei syndod a'i ofid mae yn gorfod teimlo a chyfaddef nad oes dim possibl galw ddoe yn ol.

Pa faint o gynlluniau ydym wedi eu ffurfio i wneuthur y peth hyn a'r peth arall, y daioni hyn a'r daioni arall, yr hyn ni wnawd o gwbl, nid oblegid fod genym rhy fach o amser, ond oblegid fod genym ddigon o hono, ac o blegid ein bod yn gwastraffu un awr ar ol y llall hyd nes oedd yr amser i berffeithio ein cynlluniau wedi myned o'n gofal yn llwyr am byth.

Y mae digon o amser medd y gwr wrth y wraig, neu y wraig wrth y gwr, am chwarter i un-ar-ddeg o'r gloch i barotoi i fyned i'r cwrdd ar fore dydd yr Arglwydd. Mae y cloc yn taro un-ar-ddeg, a thyna hwy mewn cyffro anarluniadwy, ac yn eu gwylltineb yn gofyn y naill i'r llall yn mha le y mae'r peth hwn a'r peth arall; ac wedi pob peth maent yn yr Eglwys, neu y capel, gwarter awr, neu ugain munud ar ol yr amser y dylent fod, pryd y bydd y gweinidog ar weddi, neu, efallai, yn rhoddi allan yr ail hymn. Yr oedd gan y bobl yma ddigon o amser i barotoi er bod yn y cwrdd yn brydlon, ond trwy gysgu, mewn ystyr, pryd y dylasent fod ar ddihun, yr oedd hanner y cwrdd yn agos a bod drosodd cyn ei fod yn gyflëus iddynt hwy i fod ynddo.

Adwaenwn hen wr penllwyd oedd yn arfer galw pobl o'r fath hyn yn "wŷr yr Amen." Wrth yr hyn y golyga eu bod yn dyfod i'r cwrdd er mwyn ffasiwn, ac yn fwy awyddus i glywed yr "Amen" nac un gair arall, ac nid gyda golwg i gael adeiladaeth, cysur, ac ymborth ysbrydol i'w heneidiau. Cyn y gall neb deimlo, y modd y dylent, yn yr addoliad cyhoeddus, rhaid yw iddynt fod yn brydlon, modd y gallant, trwy hyny, uno yn ei holl ranau mewn ysbryd priodol; yna y mae yn ddios genym y byddent yn teimlo mai da ydoedd iddynt fod yno.

Dywed Franklin i'r perwyl hyn, sef "fod yn rhaid i'r hwn sydd yn colli awr yn y boreu redeg trwy'r dydd, a syndod yw os dybena ei orchwyl cyn yr hwyr." Felly, os yw unrhyw ddyn yn cael fod ei amser yn brin, y tebygolwydd yw ei fod wedi gwario awr o amser yn ofer pan oedd yn meddwl fod ganddo ddigon, neu oriau i'w hebgor.

Digon o amser i benderfynu fod yn fwy gweithgar, yn fwy rheolaidd, ac yn fwy ffyddlon, medd ereill; ond o herwydd cysgadrwydd a difaterwch yn bresenol pryd y dylent fod yn effro, mae yr amser yn ehedeg ymaith, a hwythau heb wneyd dim o'r pethau oeddynt yn meddwl eu gwneyd.

Dywed llawer "nid ydym yn meddwl oedi dim yn hwy;" ond tra y maent yn cloffi rhwng dau feddwl, y maent, fe ddichon, yn cael eu galw ymaith i ffordd yr holl ddaear.

Medd y darllenydd, o bosibl, yn awr, gwyddwn yn eithaf da, er ys llawer dydd, yr oll sydd wedi cael ei ddweyd yn y darn uchod. Nid oes dim o newydd ynddo, a o herwydd hyny prin teilwng o sylw ydyw.

Nid oes un amheuaeth yn ein meddwl nad oeddynt yn gwybod yr oll, a llawer mwy nag sydd wedi cael ei grybwyll; ond wedi'r cyfan dichon dy fod, fel llawer o honom, yn proffesu gwybod llawer iawn o bethau; ond y pwnc mawr yw a ydyw ein gwybodaeth yn ein gwneuthur yn well dynion, ac yn well cymydogion, ac a ydym yn gwneyd pob peth yn brydlon, ac mewn trefn? Yr ydym, lawer o honon, o leiaf yn barod i feddwl fod genym, nid yn unig, ddigon o amser, ond peth i'w hebgor. Camsynied enbyd yw hyn a ddylai gael ei ddiwygio

Dedwydd yw y dyn sydd yn gwybod ac yn gwneuthur ei ran ar faes helaeth y byd mewn amser. "Os gwyddoch y pethau hyn, gwyn eich byd os gwnewch hwynt." MICAH.

TRAETHAWD AR ONESTRWYDD.

BYDDUGOL YN NGHYFARFOD LLENYDDOL CRAIGTREBANNOS.

"Darperwch bethau onest yn ngolwg pob dyn."

Y MAE yr hen arwydd-air "Honesty is the best policy," yn cael ei wirio a'i brofi beunydd yn ystod gyrfa bywyd dyn. Y mae uniondeb a chyfiawnder mewn masnach yn rinwedd ac sydd yn sicrhau llwyddiant bob amser i'w pherchenog. Cyfeiriai yr enwog Hugh Miller yn fynychaf at y cynghor canlynol a gafodd yn moreu ei oes; i'r hwn gynghor yr oedd ef yn ddyledus i raddau helaeth am ei lwyddiant bydol. "Yn dy fasnach a'th gymydog, dyro iddo bwysau, a mesur hael—byd yr yml ac yn llifo drosodd, ac ni fyddi'n golledwr yn y diwedd." Priodolai darllawydd adnabyddus ei lwyddiant i'w ryddfrydedd yn defnyddio y brâg. Ai i fyny at y gerwyn a phrofai y cwrw, yna dywedai, "Tlawd etto fechgyn, bwriwch i fewn ragor o frâg." Taflodd y darllawydd ei gymeriad i'r cwrw, a daeth yn enwog drwy Loegr, India, a'r trefedigaethau, am ei ragoroldeb, yr hyn a osododd lawr iddo sylfaen ffortun fawr. Cywirdeb mewn gair a gweithred ddylai fod yn gonglfaen pob ymdrafodaeth fasnachol. I'r crefftwr, y masnachwr, a'r nwydd-weithiwr (*manufacturer*) dylai fod yr hyn yw anrhydedd i'r milwr, a haelfrydedd i'r Cristion. Ceir yn yr alwedigaeth iselaf ddigon o gylch i ymarfer y cywirdeb cymeriadol hwn—gonestrwydd. Siaradai Hugh Miller am y saer maen y bu yn brentis gydag ef:—"Ei fod yn gosod argraff cydwybod ar bob careg a osodai i lawr." Felly gall y peirianydd ymfalchïo yn mhrydferthwch a chadernid ei waith—a'r *contractor* cywirgraff, yn ngonestrwydd cyflawniad ei gytundeb yn ei holl fanylder. Deillia i'r nwydd-weithiwr gonest nid yn unig anrhydedd ond llwyddiant trylwyr yn mhurdeb y nwyddau a esyd ar fwrdd y farchnad—a'r masnachydd yn ngonesrwydd yr hyn a wertha, a'i fod mewn gwirionedd yr hyn yr ymddengys ei fod. Y Baron Dupin wrth siarad am onestrwydd profedig y Prydeiniaid (yr hyn a ystyriai efe yn brif achos o'u llwyddiant), a sylwai, "Byddai yn bosibl ini lwyddo am ychydig drwy anghyfiawnder, gorfaeliaeth, a ffyrdd anghyfreithlawn eraill, ond nis gallwn lwyddo yn arosol, a thros faith amser, ond drwy foddion uniongyrchol i'r gwrthwyneb. Nid yn unig dewrder, dealldwriaeth, na bywiogrwydd y marsiandwr a'r nwyddweithiwr, sydd yn dal i fyny uwchafion eu cynyrchion, a chymeriad eu gwlad; ond yn fwyaf neilluol eu doethineb, eu cynildeb, ac uwchlaw pob peth, eu geirwiredd, a'u gonestrwydd. Os byth, yn yr Ynysoedd Prydeinig, y digwydd i'r dinesydd defnyddiol golli y nodweddion a'r rhinweddau uchod, gallwn fod yn sicr am Loegr, fel pob gwlad arall, y byddai i longau trafnidiaeth ddirywiedig, gwrthodedig gan bob traeth, sydyn ymgilio oddiar y moroedd, arwynebedd pa rai a orchuddiant yn awr a thrysorau y bydysawd, yn gyfnewid am drysorau llafurwaith meibion diwyd y Tair Teyrnas.

Rhaid addef fod masnach yn profi cymeriad dyn yn fwy llwyr na dim arall o fewn cwrs bywyd. Y mae yn rhoddi i'r ymbrawf llymaf, onestrwydd, hunanymwadiad, cywirdeb, a geirwiredd; a theilynga y marsiandwr sydd yn myned drwy'r fath brofedigaethau, a'u gwisg yn ddilychwin, lawn cymaint o anrhydedd, efallai, a'r milwyr a ddangosant gymaint o wrhydri a dewrder, yn nghanol ing, a thân, a pheryglon maes gwaedlyd y frwydr. Ac, er clod ac anrhydedd i'r tyrfaoedd sydd yn llafurio yn ngwahanol ganghenau masnach, credwn, fod yn rhaid caniatäu eu bod ar y cyfan yn myned trwy eu gwaith yn odidog. Pe meddyliem dros foment am y cyfoeth dirfawr a ymdiriedir i ddwylaw personau israddol, pa rai ni enillant, efallai, ond prin digon at eu cynaliaeth eu hunain—yr arian rhydd sydd yn beunydd basio drwy ddwylaw *assistants* y maelfaoedd, dirprwywyr, y goruchwylwyr, a swyddogion y banciau, &c., a sylwi mor ychydig mewn cydmariaeth yw'r toramod, a'r lladrata, sydd yn dygwydd yn nghanol y fath demtasiynau denol,—priodol y gellir addef fod yr ymarweddiad cysson a beunydd onest hwn yn adlewyrchu anrhydedd mawr ar y natur ddynol. Y mae yr un sicrwydd ac ymddiried sydd gan ddynion o fasnach yn eu gilydd, yr hyn a ardangosir yn nghyfundrefn y Coel, yr hon a sylfaenir yn unig ar yr egwyddor o anrhydedd a gonestrwydd, yn profi fod Egwyddor wrth lyw llong Masnach, ac mai ychydig yw'r llongddrylliadau ar geinfor mawr Trafnidiaeth. Yr oedd Dr. Chalmers yn gywir pan y sylwai fod yr ymddiriedaeth lwyr a chyflawn sydd gan y "*firms*" masnachol mawrion, mewn *agents* pellenig (pa rai sydd filoedd o filldiroedd oddiwrthynt yn rhandiroedd Amerig a'r Trefedigaethau Prydeinig), yn fynych yn ymddiried cyfoeth mawr i bersonau anadnabyddus, heb ddim i'w cymeradwyo ond eu cymeriad da—yn arddangosiad o'r deyrnged oreu o barch a allai dynion ddangos i'w gilydd.

Er fod elfen bur a thryloew gonestrwydd yn rhedeg drwy gyfangorff Trafnidiaeth Brydeinig—a'i bod yn nodwedd arbenig yn mhlith y cyffredin bobl, etto yn anffodus y mae (fel yn mhob oes o'r byd) gormod o enghreifftiau o anonestrwydd cywilyddus, a thwyll dybryd, gan bersonau haerllug, digywilydd, hunanol, a chybyddlyd, yn eu brys i dd'od yn gyfoethog. Ceir maelfawyr yn cymysgu ac yn halogi nwyddau, — nwydd-weithwyr a werthant ryw ysbwrial blewog yn lle gwlan,—brethyn cotwm am bris brethyn gwlan,—offerynau o haiarn *cast* yn lle rhai o ddûr—nodwyddau heb lygaid—*razors* wedi eu gwneyd yn unig i'w "gwerthu," a thwyll yn ymrithio mewn gwahanol ddulliau i ddenu yr anwybodus a'r anmhrofiadol. Ond eithriadau yw y rhai hyn etto—dynion yn casglu cyfoeth nas gallant byth ei fwynhau gan gydwybod euog ac effro, bydd eu haur yn fwy o felldith nac o fendith iddynt. Gall cyfoeth wedi ei enill drwy scriw, a thwyll, a hoced, ddallu llygaid y difeddwl, ond nid ydyw ond megys pledren wedi ei phibellu o ddwfr sebon yn codi yn aml-lywiog a dysglaer i awyrgylch haul Ffawd, ond a ymddryllid yn sydyn o herwydd nad yw o ddefnydd parhaol. Y mae y rhan fwyaf o'r Sadleirs, Dean Pauls, y Redpaths, a'r Roupells, yn dyfod i ddiwedd anenwog yn y byd hwn, ac er fod rhai "*swindlers*" cyfoethog a llwyddianus, wedi llwyddo i gadw eu gweithredoedd anfad dan sel o "wyneb haul a llygad goleuni," eto mae eu cyfoeth yn pwyso fel plwm ar eu cydwybod, ac fel cancr yn difa. "Canys derfydd am gyfoeth yr annuwiol, a'r hyn y gobeithiodd ynddo a ffy ymaith."

Gwir nad yw y dyn gonest yn dyfod yn gyfoethog mor gyflym a'r un digydwybod ac anonest, ond y mae ei lwyddiant yn fwy parhaol, ac wedi ei enill heb dwyll ac anonestrwydd, ac hyd yn nod pe byddai dyn yn aflwyddianus dros dymhor, etto rhaid iddo fod yn onest; gwell colli pob peth er cadw cymeriad, o herwydd y mae cymeriad ei hun yn gyfoeth na ymad, ac os dilyn y dyn egwyddorol ei lwybr yn mlaen yn wrol a phenderfynol, y mae llwyddiant yn ei aros yn sicr, "ac yn y diwedd ni chyll efe ei wobr."

Mae yn ddyledswydd arnom feithrin geirwiredd a gonestrwydd yn y cylch y byddom yn troi ynddo. Can ein bod wedi e'n cynysgaeddu a galluoedd i osod allan ein meddyliau mewn geiriau i'n gilydd, dylem wneyd iawn ddefnydd o'r

gallu ardderchog yma, drwy siarad yn onest a diragrith bob amser, a chadw ein tafodau yn wastad yn ddrychau cywir o'n calonau. Y mae bod yn anonest a chwyddedig yn ein siarad, yn ein harwain i fod yn anonest yn ein gweithredoedd. Pe cauid gwirionedd o'r byd, pe ymlidid gonestrwydd o'i gyffiniau, syrthiai ei drigolion i ddyfnder annhrefn a thruenusrwydd, a byddai cystal preswylio yn "abred obry" a byw ynddo. Y mae anonestrwydd yn warth i lys, yn felldith i wlad, ac yn warth i ddynoliaeth, yn bla i gymydogaeth, ac yn ganer i deulu. Gonestrwydd yw grym y byd yn mhob ystyr, gan hyny, y mae yn ddyledswydd ar bawb i dalu parch dyledus iddo, ac y mae rhwymau neillduol ar rieni i feithrin eu plant yn yr ymafeiriad o hono. Y mae anysfyriaeth dirfawr yn bodoli ar y pen hwn mewn llawer o deuluoedd. Gresyn meddwl fod llawer o benau teuluoedd (er efallai yn anfwriadol) yn annog eu plant i fod yn dwyllodrus ac anwireddus. Y fath ddylni celwyddog a ddywedir wrth blant er ei rhwystro i fod yn ddrwg, i'w cadw yn esmwyth, &c. Cwrteithier yn eu meddyliau gariad at wirionedd, gonestrwydd, a chyffesiad o'u troseddau, a meithriner ynddynt gasineb cyfatebol at anwiredd, hoced, ac anonestrwydd o bob math.

Bydded i ni foddloni ar yr hyn sydd genym, a pheidio cymeryd na chwenych eiddo ereill, a chofiwn bob amser mai gonestrwydd yw yr arwyddwers oreu, bydded i ni ei meithrin yn ymarferol, planu ei hegwyddorion yn ein calon, a'i gwneyd yn arferiad sefydlog. ALAW LLYNFELL.

O! tyred fy Awen a'th foliant a'th ddawn,
I wresog longyfarch y testyn yn llawn:
Y gonest wr diwyd yw arglwydd y byd,
Ac arno dibyna cymdeithas i gyd.
Ei ysgwydd wrth olwyn fawr masnach a rydd,
Pe peidiai am foment, fath dd'ryswch a fydd;
Yr anial gwyllt dyrys fel Eden werdd ddaw,
Blagura, blodeua, dan lafur ei law.

Yn mro'r Gorllewinfyd a'i llenyrch gwyllt, maith,
Y gesyd ei babell—man denol i waith;
Ymgilia bwystfilod y *prairies* o'i flaen,
O'i ol lle bu'r anial gwareiddiad ymdaen;
Y llongau, a'r rheilffyrdd, a'r trefydd bob llaw,
Ynt fythol golofnau o lafur ei law.
Am aur manwl chwilia gudd flychau y graig,
Ymsudda am berlau i ddyfnder yr aig.

Wrth dremio ar lenyrch Hen Walia fy ngwlad,
Llaw ddenol diwydrwydd a'i hurdda yn fâd;
Mae bwthyn gwyn glanwaith ar ysgwydd pob bryn,
A phentref tlws, bywiog, ar waelod pob glyn;
Ymffrostia'r llechweddau mewn temlau i'r Nef,
Lle cyrchai meib diwyd y Sul i'w waith Ef;
O! byddwn yn ddiwyd yn ngwinllan y byd,
A diwyd yn ngwinllan ein Harglwydd o hyd.

TALIESIN, sef ALAW LLYNFELL.

PREGETH AR DEMTIAD YR IESU.—MATT. IV. 1—11.

(Parhad o Tud. 67.)

II. Temtir ninau etto i ryfygu, ac i adael i'n hunain i roi megis hèr i'r Bod Mawr i ofalu am danom a'n cadw. Meddyliwch am ddyn ar y rhew yn myned i groesi afon, heb wybod yn y byd a yw'r iâ yn ddigon cryf a'i nad yw, ac etto yn mentro; neu tybiwch fod dyn yn cau ei lygaid ar lwybr cul a

diffaeth, a dyfnder marwol o dano: i ymddygiad o'r fath yna y temtir ni yn fynych. Ac O! pa mor aml y cydsynir.

Mae ambell i was a morwyn wrth gyflogi Galangauaf yn gwybod o'r goreu eu bod yn myned i le canolig, anfanteisiol i grefydd a rhinwedd; lle, nad oes yno ryw lawer o barch at Dduw na dyn, ac na fydd llawer o foddlonrwydd iddynt fyned i'r Ysgol Sabothol, neu fynychu y capel y caient addoli ynddo, neu gyrchu i'r Ysgol Gân, a chyflensderau cyffelyb. Eto, am fod y gyflog yn fawr, mentrant hi; bwriant eu hunain i lawr oddiar binacl y deml. "Ond ïe," medd un o'r cyfryw, "pe nad aem ni, fe ae rhywun arall." Gwir, ond nid yw hyny yn lleihau eich cyfrifoldeb chwi. Os gwnaiff arall ddrwg, nid yw yn cyfiawnhau eich drwg chwi. Nid oes raid i chwi daflu eich hunain i lawr. Byddai gwneyd hyn mor ffol a phed eled i ben rhyw graig serth, a thaflu eich hunan i lawr gan ddweyd, "Ni a'i mentrwn hi, fe ofala Duw am danom." Na chamsyniwch. Na thwyller chwi, ni watworir Duw. Na, ni wnaiff ef ofalu am danoch felly. Nis arbed ef eich bywyd, a chwithau yn fforffetio'r bywyd hwnw trwy eich rhwysg a'ch rhyfyg. Clywir weithiau ferch ieuanc, lân wylaidd, rinweddol, er mwyn perswadio ei hun i gymeryd y naid, a chyfiawnhau ei hun yn ei chamwedd; clywir hi yn dyweyd mewn ffordd o esgusawd dros gadw cwmni i ryw amfaul dienaid, direswm, a digydwybod o ddyn, ond a chanddo, efallai, lonard dwy-fin o aur melyn: "Mi at gydag ef; gall d roi allan yn well na'i olwg." Anwyl ferch! bwrw dy hun i lawr yn wir yr wyt. Gwelir dyn ieuanc pur, hyd yn hyn, yn dilyn cyfeillach rhyw gyfaill, llithrig, doniol, nid heb lawer o rinweddau, ond yn ddifygiol mewn rhyw un nodwedd bwysig ac anhebgorol; yn ei ddilyn serch hyny; yn rhyfygu anturio i'r peryglgan frenddwydio llwyddo i ddianc yn ddianaf heb ei wenwyno gan y fath gymdeithas. Yr wyt tithau, gyfaill, yn bwrw dy hun i lawr. Ni thal i ti wenieitho i ti dy hun: "Mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da."

Ond medd rhywun, "pethau bach ydyw y rhai yna" Pethau bach! Ai pethau bychain y gelwch bethau y mae iechydwriaeth bresenol a thragywyddol dyn yn troi arnynt? Ar y pethau yna a'u cyffelyb y mae gwerth a godidowgrwydd y bywyd a arweiniwn yn troi. Cwrdd a chyfaill drwg, a chyttuno a chydrodio ag ef sy wedi bod y fagl waethaf, ïe, wedi bod yn ddystryw hollol i lawerooedd. Miloedd o ieuenctyd hawddgar sydd yn mhob oes wedi rhyfygu i demtio Duw a bwrw ei hunain i lawr gan ddysgwyl cael angylion Duw yn y gwaelod i'w derbyn; ond, och; nid oedd ond seirff ac ellyllon yn y dyfnder y syrthiasant iddo.

III. Mae hi yn demtasiwn i mnau eto, i aberthu amcanion uchel a santaidd bywyd i uchel-gais o ryw fath. Mae llawer o nodau gau yn ymgynyg i bob dyn. *Mae* gwir enwogrwydd, gwir deilyngdod i'w gael. Nid bob amser yr enwogrwydd a doro yn ddisymwth ar olwg y byd, ac a dyno sylw y llnaws, ond yr un a gymer amser i gynull ei ddefnyddiau ac i gasglu nerth; yr un a'n goddiwedda, a ni heb wybod oddiwrtho; yr un a ddaw fel rhad rodd Duw yn arwydd o'i foddlonrwydd am ein bod ni yn ffy. dlawn yn y cylch a ordeiniwyd i ni. Oblegyd, gwybydder fod ei gylch i bob dyn, o'r gwr tlawd sy'n tori cerig ar ochr y ffordd hyd at ein grasusaf Frenhines—ei gylch lle y gall fod yn ddefnyddiol a gwasanaethgar i'w oes. Ond y gwall neu'r demtasiwn yw, fod dyn yn aberthu gwir

ragoriaeth a gwir enwogrwydd ar allor clod a bri mynyd awr, neu i wasanaethu rhyw gynllun o allu a dylanwad bydol, ac nad yw, dichon, yn uniongyrchol yn ei ganlyniadau, ond yr un mor wag a siomedig yn y pen draw.

Mae gan bob dyn rywbeth na ddylai ei aberthu ar un allor yn y byd; rhywbeth i fod yn eiddo iddo ef ei hun, eled clod a mawl y lluaws lle yr elo. Mae gan dduw'r byd hwn lawer ffordd i lygru'r galon, ac anafu gwir fywyd dyn. Weithiau myn y temtiwr i ryw blaid yn y wladwriaeth neu ryw sect mewn crefydd fod yn uchaf. Cais genym roi benthyg ein hunain ar amodau neilldual i'r naill neu'r llall; i droi pob peth ar ein helw i ogoneddu a dyrchafu plaid neu sect. Mae yma demtasiwn fawr. Dyma graig rhwystr y mae miloedd, a'r rheiny gyda'r mwyaf gobeithiol unwaith, wedi taro wrthi. Yndd ei hun nid yw sect ddim, mwy na newydd-loer. Moddion ac nid dyben yw sect. Mae pob sect yn deilwng o'n hymlyniad yn ol y mesur o wirionedd fyddo ganddi i'w ledaenu, ac o weithgarwch rhinweddol fyddo yn ei haelodau; pob sect i'w hanrhydeddu i'r graddau y byddo yn ddinas ar fryn na ellir ei chuddio. Pan geisio'r temtiwr gan neb i ymwerthu i sect, gofyn beth a fydd yn fethiant a dinystr yn y pen draw. Da gweled sect yn crythau, ac eglwys yn llosogi, os bydd dynion da'n amlhau, ac os bydd achos rhinwedd a santeiddrwydd, fel tŷ Dafydd gynt, yn myned gryfach, gryfach. Ym mha ddull bynag yr ymwisgo Mammon—fel y môr-dduw paganaidd Proteus—mae ganddo lawer ffurf—Mammon yw, ac na chaed ei wrandaw. Ai fel duw cyfoeth, ai duw gwebydri, ai duw clod, ai duw goruchafiaeth y delo; ai fel noddwr rhyw sect eglwysig, neu warcheidwad rhyw blaid wladol, temtiwr yw.

Mae cymfer o bethau i'w dweyd. Mae'r testyn hwn mor llawn o wersi. Nis medraf fi gymhwyso y gwirionedd at bob amgylchiad, a'i wasgu i bob agen lle mae bwlch wedi ei adael i'r temtiwr i ymosod arnoch. Da chwi, cymhwyswch chwi addysg y testyn at eich cyflyrau eich hunain. Pa un a'i esmwythyd corfforol, neu anystyriaeth ryfygus, neu ymgais am glod ac anrhydedd y ceisia'r temtiwr eich anog iddo, dangoswch eich bod yn ei adnabod ar bob ffurf, a dywedwch wrtho: "Dos yn ôl i, Satan." Yn y ffair, yn y farchnad, yn y neithior, yn y siop, yn y gyfnewidfa arian, yn y teulu, yn nghynlluniau dirgel eich bywyd, yn y nod sy gan eich meddwl i amcanu yn feunyddiol ato, o cauwch y drws yn wyneb yr un drwg.

Mae'r bywyd gododog hwn yn rhy ragorol i'w werthu i'r diafol. Gwir yr ymddengys fel peth gwael ac isel yn ein golwg ni yn fynych, a barnu wrth ein llaesder a'n clauarineb. Gwir ein bod ni yn chwanog i wneyd crefydd yn beth rhad a sionc, ac edrych ar dduwioldeb fel peth gyda llaw, ac nid fel yr un peth anghenrheidiol. Eto i gyd, rhodd Duw yw ein bywyd, galluog o bethau uchel. Mae posibilrwydd diderfynau yn gyrhaeddadwy iddo mewn rhinwedd a duwioldeb. Mae y *tide* netol wedi codi yn uchel iawn mewn llawer buchedd ddynol cyn hyn. Mae marciau'r llanw fry fry ar draethoedd pell oddiwrthym ni. Mae bywyd Iesu o Nazareth yn ddigon i ddangos pa uchelderau y mae yn nghyrraedd dyn marwol i dreiglo iddynt. Ond gorfu arno ef fyned i'r anialwch, a'i demtio gan ddiafol. Gorfydd i ninau eto fyned. Rhaid i ni dario yno am ysbaid ym mhlith y bwystfilod, a dyoddef newyn, a chael ein baeddu gan elyn

ein hiechydwriaeth. Oni wyddom oll, rhai fwy a rhai lai, am ymosodiadau'r temtiwr? Oni chofiwn lawer awr a llawer dydd o brofedigaeth chwerw? Onid oes yma yn y fynwes glwyfau ac archollion wedi eu derbyn wrth ein gwaith yn bwrw ein hunain i lawr i enbydrwydd perygl? Ac, O diolch, onid oes yma hetyd ryw telys adgof am lawer cynyg aflwyddiannus a wnaeth y temtiwr i'n hudo o lwybrau rhinwedd? "Nid ydym heb wybod ei ddichellion ef." "Ond i Dduw y byddo'r diolch yr hwn sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist."

"Yna y gadawodd diafol ef; ac wele angylion a ddaethant ac a weinisant iddo." Yr oruchafiaeth hon ar y temtiwr yw y peth godidog a mwyaf mawreddog yn holl gylch profiad dyn. Dyma'r temlad melusaf, mwyaf gorfoleddus, a thawelaf ei dangnefedd o bob temlad y gŵyr dyn am dano. Os y sefi dy dir, bydd llatar glân gydwybod

"Yn gân angylion i'th gysuro,
Yn wledd y nef i'th enaid llon."

Angylion yn wir a ddeuant i weini iti: angylion tyneraf bywyd; anwyliaid santeiddiedig a ymadawsant a'r fuchedd hon. Daw dy fam, sydd yn y gwynfyd er's llawer blwyddyn, a gwena arnat yn fwy siriol, a gwasg di at ei mynwes yn fwy cariadus nag a wnaeth erioed tra yr ochr hyn. Daw dy dad, sy'n tawel orphwys wedi helbul blin einioes, a threm lonach o gymeradwyaeth yn ei wedd, a thôn dynerach i'w lais, nag a welaist nac a glywaist ti erioed o'r blaen. Daw hoff chwaer dy fynwes, a'i ffurf yn brydferthach nag erioed, a'i cham yn ysgafnach, ac anadla amgeledd a nerth i'th galon ar ol traddodd y demtasiwn. Daw cyfaill mynwesol bore dy oes, yr hwn a adawodd lawer hedyn da o addysg ac o esiampl ym maes dy galon, a phar it deimlo ei gariad pur yn fwy angerddol attat nac erioed. Hwy ddeuant oll. Daw yr hen saint a'r hen ffyddloniaid a fuont yn yr un tywydd a thithau; deuant i gydymdeimlo a chydlawenhau â thi. Daw gorchwanus gôr yr Apostolion, a mohanus nifer y prophwydi, ac arddercho'l y merthyri i weini iti o lawenydd pur eu cymdeithas, a chai yn wir er mau yn yr amalwch yr ydwyt nad oes hyd yn hod yno ond i Dduw a phorth i'r nefoedd. W. THOMAS.

O.Y. Heblaw mân wallau eraill, bawdd eu canfod, gweled y darllenydd yn dda i gywiro y ddau ganlynol yn y rhifyn ddiweddar: tud 65, llin. 13 o'r godre, yn lle "y diog" darll. y drwg," a thud. 66 llin. 6 o'r godre, yn lle i "fynu'r tan," darll. "i fynu'n lân."

DAEARYDDIAETH PALESTINA.

PEN. VII.—HINSAWDD, TYMHORAU, FFRWYTHLONDEB A CHYNYRCHION NATURIOL.

1. Mae'r hinsawdd ar y cyffredin yn fwynaidd a iachus. Mae'r haf yn lled boeth ar yr arfordir ac ar y gwastadedd yn y rhan dufewnol o'r wlad, tra y mae'r parthau mynyddig yn oer.

Mae prinder gwlaw yn cael ei wneuthur fynu i raddau helaeth gan y gwlith, yr hwn sydd yn y nos yn gorchuddio'r ddaear ac yn ei disychedu hi. Sonir am y gwlith yn aml yn yr Ysgrythyrau. Mae Jacob yn ei fendith ddiweddaf yn siarad fel hyn, am eirifeddiaeth Joseph: "Ei dir ef fydd wedi ei fendigo gan yr Arglwydd â hyfrydwch y nefoedd, ac â *gwlith*." Deut. xxxiii. 13. Buasai'r

Iuddewon yn ystyried absenoldeb gwlith yn felldith; felly llafarai Dafydd yn ei alarnad ar ol Saul a'i feibion,—"Oh fynyddoedd Gilboa, na ddisgyned na *gwlith* na gwlaw!" Mae cariad brawdol yn cael ei gydmaru i wlith. Felly, meddai'r Salmydd,—"Fel *gwlith* Hermon, ac fel y *gulith* yn disgyn ar fynyddoedd Sion." Salm cxxxiii. 3.

2. Nid yw'r gauaf mor chwerw. Mae eira i'w gael weithiau; ond nid erys yn hir ar y ddaear. Mae'r tyrfau yn fwy cyffredin yn y gauaf na'r haf, yn neilldiol yn y gwastadedd a'r dyffrynoedd; tra ar y mynyddau y maent yn fwy aml yn yr hâf.

3. Cyfarfyddir yn yr Ysgrythyrau â'r ymadrodd "gwlaw cynar a diweddar." Disgyna'r gwlaw cynar oddeutu diwedd Hydref neu ddechreu Tachwedd, pryd y dechreua'r hwsmon aredig ei dir, a hau'r hâd. Disgyn y gwlaw diweddar ryw ychydig cyn y cynhauaf, yn mis Ebriil. Buasai'r Iuddewon yn edrych yn hyderus am y gwlaw hyn, oblegid yr oeddent yn ei ystyried yn hanfodol i dyfiad y grawn ac i'w ddwyn i aeddfedrwydd. Nis gwyddai'r Iuddew ddim am wlaw yn ystod y cynhauaf. Felly y gallasai trigolion Ramah gael eu synu, pan yn ystod cynhauaf y gwenith, y bu ystorm o wlaw a tharanau, yn ol gair Samuel. Yr oedd cynhauaf yr haidd yn dechreu oddeutu'r Pasc, a'r gwenith oddeutu'r Pentecost,—y cyntaf yn Ebrill a'r olaf yn Mai. Mae amser y cynhauaf, yn Palestina, yn cyfatteb y dyddiau presenol i'r hyn ydoedd gynt.

4. Nid yn unig yr Ysgrythyrau a dystiolaethant am y wlad, ei bod, cyn amser Cris ac yn yr amser hwnw, yn wlad ffrwythlon, ac yn cynyrchu cnydau toreithog, ond y mae hen ysgrifeniadau ereill yn cyduno i dystiolaethu yr un peth. Gan fod y wlad yn awr dan lywodraeth Twrci, ac yn cael ei phoblogi, gan mwyaf, gan yr Arabiaid, y rhai nid ydynt nemawr o ffermwyr, nid ydyw mewn cystal stâd o gwrteithiad ag y bu, ond etto mae rhai manau dan driniaeth dda, ac yn cynyrchu rhai math o rawn a hysiau yn y fath lewndid nes galluogi y trigolion i'w gwerthu i genedloedd ereill.

5. *Grawn, &c.*—Cwrteithir mewn amrywiol fanau, wenith, rhyg, haidd, ffa, cotwm, a thybacco; cedir *rice* ar lan dyfroedd Merom, ac ar lanau uchaf yr Iorddonen. Cyfoeth Drusiaid Lebanon ydyw'r merwydden wèn (*white mulberry*); mae'r gwinllanoedd yn cynyrchu gwinoedd rhagorol; mae cyflawnder o *lemons, water-melons*, a *cucumbers*, oddeutu Schechem a Jaffa; y *dates* a *phomegranates* yn nghymydogaeth Gaza.

Yr olewydd yw prif goed Palestina; mae'r ffigysbren hefyd yn lluosog; tyf y palmwydd yn dda oddeutu Carmel a thref Acre; a choed *lemon* ac *orange* yn benaf o ddeutu Nablous. Ceir amrywiol goed ereill yn ngwahanol barthau'r wlad, megis y *walnut, strawberry, laurel*, ac amrywiol fathau o binwydd *(pine)*.

6. *Anifeiliaid.* Preswylia y llewpard ar Libanus goedog; yr hyæna yn nyffryn yr Iorddonen; gwelir yn aml foch gwyllt ar Tabor a Hermon; a thriga'r *jackals* mewn llochesau ar lanau'r Iorddonen. Rhywbeth tebyg i fleiddiaid ydyw'r *jackals*, ond yn llai; ymguddiant yn ystod y dydd, a deuant i chwilio am ysglyfaeth yn y nos; ymosodant ar haidd o ddefaid a chariant ymaith gryn nifer o honynt. Felly yr ydoedd rhyw 3000 o flynyddoedd yn ol; canys dywedai Jacob, pan yn ymddadleu a Laban, am y geifr a'r defaid,—"Ni ddygais ysglyfaeth attat ti." Gen. xxxi. 39. Yr oedd Basham a Gilead yn enwog am eu hanifeiliaid mawr, cryf, a thew. Mae'r prophwydi yn cyfeirio yn aml at "deirw Basan."

Creadurlaid pur anaml yw ceffylau; mae eu gwaith hwy yn cael ei wneuthur gan ychain, camelod, ac assynod.

Mae y dosparth tlotaf o'r trigolion yn ymddibynu i raddau helaeth am ymborth ar y mêl a gânt yn ngheudod coed a holltau y creigydd, lle mae'r gwenyn gwyllt yn gwneuthur eu trigfa.

7. *Mwnau.*—Ychydig wybodaeth sydd genym am fwnau Palestina. Mae Volney yn dyweyd fod mwn haiarn i'w gael yn mynyddoedd Kesrouan a'r Drusiaid, neu mewn geiriau eraill, yn Libanus. Nid yw'r Ysgrythyrau yn ein

hysbysu fod arian i'w gael yn Palestina. Eto ymddengys fod rhyw olion o hono hefyd ar gael. Pan yr oedd Volney yn mhlith y Drusiaid, dywedwyd wrtho eu bod wedi darganfod mwn arian a phlwm yn Lebanon, ond iddynt eu cuddio cyn gynted ac oedd possibl, fel na fuasai i'r Tyrciaid gael eu tynu yno.

Mae Moses yn ei ddesgrifiad o'r wlad, yn ei galw hi yn "wlad, yr hon mae ei cherig yn haiarn, ac o'i mynyddoedd y cloddi bres." Deut. viii 9. Wrth *bres* yn ddiau y mae i ni ddeall, copr, oblegid nid oes y fath beth yn natur a mwnglawdd pres. Dywedir fod gwythïen gopr yn agos i Aleppo, yn yr hen amser; ond y mae wedi ei gadael er's llawer dydd. Darganfyddwyd glo yn ddiweddar yn mynyddoedd Lebanon. Ceir cyflawnder o halen caled *(rock salt)* yn y parth eithaf deheuol i'r Môr Marw; a *saltpetre* yn y de-ddwyrain iddo. Mae cymydogaeth Hasbeya, yn agos i darddiad yr Iorddonen, yn enwog am *Asphaltum*.

J. E.

Undodwr Ieuanc (tud. 27).—Ceisiwch genym ni neu gan y Parch. T. Thomas, esboniad ar Gen. iii. 22. "Wele y dyn sydd megis un o honom, ni," &c., ac yr ydych yn gosod pwys ar y gair *Un*. Gan nad ydyw Mr. Thomas wedi dewis atteb eich gofyniad, rhaid i chwi foddloni y tro hwn ar yr hyn a gawn ni gynyg i'ch sylw. Darlunir yma yr Arglwydd Dduw fel yn llafaru yn ol dull brenhinoedd ac ymerawdwyr. Gwyddoch fod gan frenhinoedd lysoedd b'le y cyfarfyddant â'u swyddogion i'r dyben i drafod materion y deyrnas. Cyffelyb yw'r meddyl-ddrych yn yr adnod hon. Desgrifir yr Arglwydd Dduw fel yn eistedd yn y fath gynghorfa a'i swyddogion yn sefyll o'i amgylch. Cyfarfyddir â'r un fath feddyl-ddrych mewn manau ereill yn y Beibl. Mae desgrifiad cyffelyb yn 1 Bren. xxii. 19 — "Ac efe (Micheah) a ddywedodd, Clyw gan hynny air yr Arglwydd: Gwelais yr Arglwydd yn eistedd ar orseddfa, a holl lu y nefoedd yn sefyll yn ei ymyl, ar ei law ddeheu ac ar ei law aswy. A'r Arglwydd a ddywedodd, Pwy a dwylla Ahab, fel yr elo i fyny ac y syrthio yn Ramoth-gilead? Ac un a ddywedodd fel hyn, ac arall oedd yn dywedyd fel hyn. Ac ysbryd a ddaeth allan, ac a safodd ger bron yr Arglwydd, ac a ddywedodd, Myfi a'i twyllaf ef. A dywedodd yr Arglwydd wrtho, Pa fodd?" &c. Pe byddai yn yr adnod y sylwch arni gyfeiriad at yr athrawiaeth hynod o dri pherson yn yr banfod Ddwyfol, meddwl ydym o ddifrif na fyddai o ddim gwerth fel prawf o wirionedd yr athrawiaeth. Pa'm? Oblegid ymddengys i ni mai dychymyg neu alegori yw yr hyn a ddywedir yn y bennod am gwymp dyn, i'r dyben i gyfrif am y modd y daeth y drwg i'r byd. Am hyny, nid ydym ni yn credu i'r fath ymddyddan ag sydd yma erioed gymeryd lle yn y nefoedd, neu breswylfa y Duwdod, os ydyw yn preswylio mewn rhyw fan o'r greadigaeth yn fwy neillduol na'u gilydd. Alegori hefyd yw ag sydd yn sylfaenedig ar anwybodaeth o ddoethineb a chariad Duw. Darlunir Ef yn yr hanes fel yn anfoddlon i ddyn gyrhaeddyd gwybodaeth o dda a drwg. Nid all dim fod yn fwy camsymiol am y Tad Anfeidrol na hyn. Onid ydyw Duw wedi gwneuthur dyn yn fod rhesymol? Onid yw wedi ei gynysgaeddu â gallnoedd eneidiawl i wybod da a drwg? Heb wybod mai drwg yw drwg a da yw da, ni allai ochelyd un a dewis y llall—ni allai fod yn greadur rhinweddol. Heb fod drwg ni fyddai dim rhinwedd. Yn ein gallu i adnabod y gwahaniaeth sydd rhwng drwg a da, ac yn ein gwaith yn gochelyd un ac yn cyflawnu y llall, y mae rhin-

wedd yn gynnwysedig. O herwydd y gallu hwn a dderbyniasom oddiwrth Dduw yr ydym yn greaduriaid cyfrifol ac yn rhagori ar yr anifeiliaid. Gan hyny nis gallasai y Creawdwr doeth a daionus feio ar ddyn am ddyfod i adnabyddiaeth o'r hyn oedd wedi ei appwyntio a'i alluogi i adnabod. Ymddengys i ni mai dychymyg un a meddwl bach, plentynaidd, ganddo am Dduw yw yr alegori. O ganlyniad, yr ydym ni yn ei gwrthod fel datgudiad Dwyfol, ac yn gwrthod pob *argument* a dynir oddiwrthi fel prawf o atorawiaeth. Hefyd, beth all fod yn fwy plentynaidd a chamsymol na darlunio Duw fel yn gwarafun i ddyn foddion i'w arwain i wir ddedwyddwch? "Ac weithian," medd yr awdwr, "rhag iddo (y dyn) estyn ei law a chymmeryd o bren y bywyd, a bwyta, a byw yn dragywyddol," dywed i'r Arglwydd Dduw anfon y dyn allan o Eden, hyny yw, allan o'r ffordd a'i harweiniai i ddedwyddwch ac anfarwoldeb! Pwy all gredu hyn am y TAD Nefol? Yn hytrach na lluddias, y mae Efe yn rhoddi pob annogaeth i ddyn i fyw yn dragwyddol. Yn y bywyd tragwyddol mae y deyrnas a baratodd Efe i'r sawl a'i carant Ef, cyn bod gardd Eden erioed—er cyn seilad y byd. Am hyny, fel y sylwasom yn barod, pe byddai yn y geiriau, *un o honom ni*, gyfeiriad at dri pherson yn y Drindod, beth o werth fyddai y fath brawf? Mai yn amlwg mai nid datgudiad Dwyfol fyddai, ond meddwl un ag oedd yn llafurio, fel mae'r alegori yn dangos, tan anwybodaeth o ddybenion doeth a daionus y Tad Anfeidrol yn ei lywodraeth foesol. Hefyd, gallasai yr ymddiddan fod rhwng tri chant o bersonau yn gystal a rhwng tri. Mewn gair, pwy bynag sydd am brofion i attegu athrawiaeth wrthun y Drindod, cyngborem hwynt i edrych am danynt, nid yn y Beibl, ond yn nghredo Athanasius a Llyfr y Weddi Gyffredin. Ni wyddom ni ddim am un awdurdod sy well.

MR. GOL.—Caniatewch i mi ddyweyd gair neu ddau mewn anghymmeradwyaeth o'r dull sydd mewn arferiad yn llawer carchar yn ein gwlad o weinyddu cosp ar ddrwg-weithedwryr a ddanfonir yno i'r dyben i'w ceryddu a gwellhau eu buchedd. Ymddengys i mi fod cymmaint o eisiau diwygiad yn ein cynllun o ddysgyblaeth garcharol ag yn un peth yn ein gwlad. Cefais gyfleusdra yn ddiweddar i dreulio awr neu ddwy mewn carchar. Ymddangosai i mi fod y lle yn cael ei gadw yn lân a threfnus ddigon. Nid oedd dim bai, debygaswn, i'w ffeindio ar y pen hwn. Ond yr oedd yno un peth a dynnodd fy sylw yn n illduol, sef y gwrthrych a alwent y *tread-mill* arno. Rhyw fath o olwyn fawr ydyw a grisiau arni. Gosodir y carcharorion dros awr neu ddwy bob dydd i ddringo y grisiau hyn ac i droi yr olwyn nes y byddont yn chwysu ac yn blino. Pryd y buo i yno yr oedd rhyw hanner dwsin ar yr olwyn yn myned trwy yr exercise feunyddiol, a hedd-geidwad a gwialem yn ei law yn gwylied arnynt ac yn cadw rheolaeth. Nis gallaswn lai na meddwl mai rhyw fath o gosp ffol iawn ydoedd hon. Dyben cosp mewn carchar, fel pob man arall, debygwn i, yw, neu o leiaf, ddylai fod, diwygio y cospedig; ond pwy duedd gwellhaol all fod yn y fath gosp ffol a chwerthinadwy a hon? Ymddengys i mi mai ei dyben yw, nid diwygio dyhirynod, ond ymddial arnynt. Dyma fy meddwl i am y peth, ac mi debygaswn wrth olwg rhai o'r gwyr oedd yn troedio yr olwyn, mai dyma eu barn hwythau. Y canlyniad yw fod eu teimladau yn cael suro. Phwy ryfedd gan hyny eu bod yn waeth, yn fwy pengaled mewn drygioni, wedi dod allan, nac oeddynt pan y danfonwyd hwynt yno? Gwneid gwell effaith ar eu meddyliau yn sicr pe teimlent fod y lludded cyhyrol (*muscular labour*) a wastreffir ar hen olwyn ddiffrwyth, yn cael ei droi i fod o ryw les, os

nid iddynt hwy eu hunain, o leiaf i'r cyhoedd. Yn eu plith, nid yn anfynych, y mae llawer crefftwr dehau. Yn lle ei osod i wneuthur gwaith diles i neb, onid doethach fyddai rhoddi rhyw beth iddo wneyd yn ei grefft—crydd i wneuthur esgidiau teiliwr i wneuthur dillad, ac felly y saer, y gof, &c. Gellid ffeindio rhyw waith proffidiol i'r digrefft, ac i'r menywed. Ceir hyn lawer gwell effaith hefyd ar y carcharorion na cha sut waith ffol a welais yno er mwyn ymddial arnynt. Hefyd byddai cynnyrch eu gwaith yn help mawr i gynnal traul y carchar, ac felly yn ysgafnhau peth ar y trethi trymion sydd arnom. Yn America, trwy well trefn na sy gennym ni, y mae carcharau yn cael eu gwneuthur, nid yn unig yn hunan-gynhaliol, ond i ychwanegu at y cyllid cyffredin. Paham na allem ninnau wneyd yr un modd? Yn wir pwnc lled bwysfawr ydyw hwn, ac y mae eisiau dihuno y wlad i edrych i mewn iddo. O bob gorchwyl ffol a diles, yr wyf yn meddwl fod troi treadmill gyda'r mwyaf a welais i erioed. Gan dymuned pob llwyddiant i'r YMOFYNYDD,

Ydwyf yr eiddoch, X.Y.

Y SENEDD NEWYDD.

Y SIARAD cyffredin braidd yn mhob man yn awr yw,—Beth ydych yn feddwl am y Senedd newydd? Pwy fesur a gynnygir gan y Weinyddiaeth? A ydyw yn debyg o ysgafnhau peth ar drethi trymion y wlad? Beth am y ballot, ac enwedig am yr Eglwys Wyddelig? Nid oes dim ammheuaeth nad ydyw Mr. Gladstone wedi bod yn lled ddoeth yn ei ddewisiad o ddynion cymmwys i swyddi ei Weinyddiaeth. Mae yn Weinyddiaeth gref a galluog, a pheth sydd yn well na'r cyfan, wrth bob tebyg, y mae yn Weinyddiaeth onest. Ei dwys ddymuniad, yn ddiau, yw ysgafnhau y trethi dan ba rai y mae'r wlad yn griddfan, trwy osod terfyn ar lawer o lygreddau mewn cyssylltiad âg arian y llywodraeth. Yn wir mae yn warthus meddwl y modd y gwastreffid arian a dynir mewn trethi o logellau truenaiaid. Prif Arglwydd y Morlys yn awr, fel y gwyr darllenwyr yr YMOFYNYDD, yw Mr. Childers. Ychydig ddyddiau yn ol, rhoddodd dd sgrifiad yn ei araeth yn Nhy y Cyffredin, o'r gwastraff arswydus sydd yn ffynu yn y Morlys mewn cyssylltiad â'r segur-swyddau. Ymddengys fod dynion yn derbyn cyflogau mawrion nad ydynt yn gwneyd dim am yr arian. Sylwodd nad oes dim cyfartaledd rhwng nifer swyddogion y Llynges â nifer y dynion sydd tan eu hawdurdod. Pan leiheir nifer y dynion, gadewir nifer y swyddogion yr un faint ag o'r blaen, a thelir cyflogau iddynt am fod yn segur! Dwy flynedd yn ol yr oedd 509 o swyddogion ar gyfer 15,887 o wyr; y mae yn awr 533 o swyddogion ar gyfer 13,436 o wyr! Pwy ryfedd fod y trethi yn trymhau? Yn ol y cyfartaledd, y nifer ddylai fod, medd Mr. Childers, yw 433, o ganlyniad y mae wedi diswyddo 95 o honynt, a thrwy hynny yn arbed miloedd o arian y wlad. Ymddengys hefyd fod cyflogau mawrion yn cael eu talu i 79 o raglyngeswyr, o'r rhai nid oes ond 23 mewn gwasanaeth, a dim ond pedwar o honynt ar y mor! Telir cyflogau hefyd i 127 o ol-lyngeswyr, o'r rhai nid oes dim ond tri ar y mor, a dim ond chwech yn y porthladdoedd! Hefyd, o 725 o gapteniaid sydd yn derbyn cyflogau, nid oes dim ond 61 yn y llongau rhyfel, ac ond 195 o lywyddion yn cael eu defnyddio, er i fod 405 o'r feth yn derbyn cyflogau! Dyma yn awr siampl i ddarllenydd yr YMOFYNYDD o'r modd y gwastreffir arian y

llywodraeth. Beth pe gosodwn o'ch blaen y symiau anferthol a delir hefyd i seguriwyr craill am ryw wasanaeth na wnaethant hwy eu hunain i'r deyrnas, ond eu teidau os ugeiniau o flynyddau yn ol, chwi aech yn benwan gwyllt.

Dyma hefyd rylelgyrch Abyssinia! Yr ydym eisioes wedi gorfod talu yn agos i chwech miliwn o bunau, ac am beth? Am ladd y barbariad Theodore, a rhyddhau rhyw nifer fechan o ddynion fuont mor ffol a rhoddi eu hunain i'w afael. Cyn yr Etholiad Cyffredinol diweddaf, rhoddodd y Weinyddiaeth Doryaidd ar ddeall i'r wlad mai oddeutu pum miliwn fyddai eithaf y draul; ond yn awr mae wedi troi allan nad oedd hyny ddim llawer dros hanner y *bill*. A ydym ni i gredu na wyddai Disraeli a'i frodyr o hyny cyn yr Etholiad, ac nad oedd gaddlynt dryben neilldnol yn ei gwaith yn ceisio y gwir oddiwrth y wlad, nes y byddai yr Etholiad drosodd. Yn ddiammau bu gwastraff o'nadwy, anfeirnsrwydd o du y Weinyddiaeth Doryaidd, ac yr ydym yn ofni, llawer o anonestrwydd gorachwylwyr, ynglyn â'r rhyfelgyrch cywilyddus hwnw, cyn y gallasai y draul i chwyddo i ddeng miliwn o bunau!! Ac y mae ar y wlad i dalu yn ychwaneg o bedair i bum miliwn, ac nis gwyr Mr. Gladstone a'i gydswyd logion beth i wneyd i gael y fath swm anferthol at ei gilydd. Dyma fel mae'r wlad yn cael ei chalu am ddoeth y Toryaid i lywodraethu. Ffaid talu'r *bill*, ac o gwdau *John Bull* mae yn rhaid i'r arian dadod. Y bwriad presenol yw ychwanegu treth yr incwm, er i fod y dreth honno yn barod yn chwech ceiniog yn y punt. Diolch i'r Toryaid gwastraffyd! Am beidio pleidleisio dros y rhai hyn y mae tirfeistri Toryaidd yn awr yn gwysio eu deiliaid i ymadael â'u llefyd! Y mae'r ffwlaid yn tynu y ballot ar eu penau.

Amcan y Weinyddiaeth bresenol yw leihau y treth, ond nis galiant gyflawni eu bwriad mewn un Session; ac erbyn hyny fe ddichon y byddi y bobl mor ffol etto ag adferu y Toryaid i lywo. Yn wir mae'r golion Brydeinaidd yn dywyll iawn ynguylch petman a [illegible] a'u honwybodaeth a'u difatterwch yw'r prif achos o'r treth trymion sydd ar ein hysgwyddau.

Gyda golwg ar y mesurau sydd eisioes o flaen y Senedd bresenol, nis gellir llai na'u cymmeradwyo. Un o honynt yw ysgrif gan Mr. Forster ynglylch yr ysgolion gwaddoledig (*endowed schools*), o ba rai y mae cannoedd lawer yn ein gwlad, ac un yn y dreth hon. Hyd yn hyn mae'r ysgolion yma wedi bod yn meddiant offeiriaid yr Esgobwyr. Rhwy sydd yn gwneyd i fyny eu pwyligoran ac yn apwyntio meistri. Dyben ysgrif Mr. Forster yw gosod yr ysgolion hyn yn rhydd fel na byddo gan yr Eglwys Sefydledig fwy o hawl ynddynt na rhyw enwad arall. Nid oes dim sy deccach, a gobeithio ydym y llwydda Mr. Forster i basio'r ysgrif. Mae ysgrif dda iawn hefyd o flaen y Ty gan Mr. Hadfield ynglylch mynwentydd ein gwlad. Ei dyben yw rhoddi rhyddid i weinidogion yr Anghydffurfwyr i'ddarllen gwasanaeth angladdol ynddynt ar gais y sawl fyddo yn dewis. Mae hyn wedi cael ei ganiatau eisioes i Anghydffurfwyr yr Iwerddon a Scotland, ac nid oes un rheswm na chanatad yr un peth i'w brodyr yn Nghymru a Lloegr. Wrth gwrs mae'r offeiriaid yn groes iawn i'r ysgrif hon. Mae ysgrif bwysig iawn hefyd o flaen y Ty gan Syr John Coleridge, y Cyfreithiwr Cyffredinol,

ynghylch y ddwy brif ysgol, Rhydychen a Chaergrawnt. Bwriad Sir John yw gwneuthur brentiau yr ysgolion hyn yr un mor agored i bawb o bob enwad ag ydynt i blant yr Episcopaliaid. Beth all fod yn fwy cyfiawn? Dylai'r Anghydffurfiwyr trwy'r holl deyrnas ddanfon desybau yn ddioed o flaen y Ty i attegu y ddwy ysgrif hon. Mae y Toryaid ar y maes yn eu herbyn.

Nid oes dim ammheuaeth ar feddwl neb na chair y ballot hefyd cyn pen ychydig amser. Mae'r wlad yn benderfynol yn ei chylch. Cafodd araethau Mr. Bruce a Mr. Leatham drosti dderbyniad gwresog gan y Ty. Yr oedd hynny yn argoli yn ffafriol. Pa fodd bynnag mae'r wlad yn awr yn aeddfed i'r ballot, ac y mae hynny yn ddigon. Ni ellir caniatau drachefn y fath anfadrwydd gwarthus ag a welwyd yn yr Ethohad diweddaf. Yna ffarwel am byth i'r *scrin*, a'r *notishiau*, a'r awgrymiadau, a chwydd-arglwyddiaeth yr *agents* hunandybus sydd fynychaf yn fwy gorthrymus na'r tir-feistr ei hun. Mae y dull presenol o ethol Seneddwyr yn waradwydd ar ein gwlad.

"Ond beth," meddech, "am yr Eglwys Wyddelig?" Ie, beth am hono, druan! Pasiodd ei deuryd yn y Senedd flaenorol; yn awr mae wedi ei seho. Mae ysgrif Mr. Gladstone wedi myned trwy yr ail ddarlleniad yn fwy na buddugoliaethus. Parhaodd y ddadl bedair noswaith, a thraddodwyd oddeutu deugain o areithiau. Ymddangosai yr areithwyr i ni fel pe buasent yn saethu at lew marw, a'u bod yn gydwybodol o'r ffaith. Boreu dydd Mercher, y TRYDYDD-AR-HUGAIN O FIS MAWRTH, 1869, ymlanodd y Ty. Dyma noswaith sydd wedi ei hynodi trwy holl oesoedd dyfodol y byd. Bydd yn destyn haneswyr, ac yn fyfyrdod efrydwyr, pan fydd y genhedlaeth hon a chenhedlaethau lawer ar ei hôl, wedi ymgymysgu â llwch y llawr. O'r fynud hono y dydd-nodir oes newydd ar greydd yn ein hanwyl wlad, pan y penderfynodd 368 yn erbyn 250 ddod yn rhaid i'r Eglwys Wyddelig, fel Stâd-Eglwys, i FARW. Y boreu hwnw y pwyswyd, yn Senedd Prydain Fawr, yr egwyddor o Eglwys Sefydledig yn nghlorian cyfiawnder, ac a gafwyd yn brin. Er mai at Eglwys yr Iwerddon yr anelwyd yr ergyd—er mai arni hi yr oedd i ddysgyn—etto y fath oedd ei nerth, fel daer-gryn, nes siglwyd seiliau y cyfeirio sefydliad trwy holl Gymru a Lloegr, a'r Ysgotland hefyd.

Gw ich offer tyddai ail agor y ddadl hon mwy ynghylch Eglwys yr Iwerddon. Nid yw wiw iddi apelo mwyach yn erbyn y ddedryd. Mewn gwirionedd, nid dedryd y Senedd yw, ond dedryd trigolion Brydain Fawr. Mentrodd Ty yr Arglwyddi yn y Senedd ddiweddaf ohirio y dedryd. Apelasant at y wlad—at Cæsar, ac y mae Cæsar wedi dangos ei benderfyniad mewn modd digamsymol, trwy ddanfon Disraeli oddeutu eu busnes, a gosed llyw llong y deyrnas yn llaw gadarn Mr Gladstone. Dyna ddedryd Cæsar. Yn wir, rhai ystefnig yw'r Arglwyddi. Os, os, yr ymddygant, pan ddel yr ysgrif o'u blaen, mor ynfyd-ddewr a'i gwrthod, nid amheuyg fydd eu hymddygiad i'ru ail-laddiad. Nid oes dim "bola da" gan y bobl attynt ys blynyddau, ac os y taflant allan yr ysgrif, gallant fod yn sicr na fadneuir byth i'w Ty. Ond gwrthodent hi os mynant, nid yw o fawr gwahanneth; tynged yr Eglwys Wyddelig yw marw, a marw heb obaith am adgyfodiad. Mae prif egwyddor yr ysgrif hefyd y

fath fel nad yw yn bossibl ei chlytio mewn pwyllgor. Y ddedryd yw dileu'r adeiliad. Dichon y gellir gwneyd rhyw welliantau bychain gyda golwg ar y ffordd oreu i symud y llechau, y tylathau, y ffenestri, y corau, a'r gwelydd, ond i lawr rhaid i'r hen fagwyr i ddod; cloddir i fynu ei sylfaen, a gobeithio yr heuir halen ar ei safle.

Gorfoledded pawb sydd yn caru rhyddid crefyddol. Mae egwyddor newydd wedi ei mabwysiadu mewn ilywodraethyddiaeth eglwysig. O hyn allan cwestiwn o amser yn unig fydd Stâd-Eglwys yn Nghymru a Lloegr. Mae'r amser yn cyflym ddynesu pryd y rhyddheir Eglwys Crist yn y wlad hon o'i chadwynau; pryd y caiff llafar y gwirionedd barottach gwrandawiad; ac yr ymdaena mwy o heddwch ac ewyllys da yn mhlith y gwahanol enwadau.

Y FRON-GOCH.

WILLIE.

O dywed immi, robin fach.
P'odd treuliaist ti y gaua'?
I'm golwg mae dy fron mor iach
A chyn y rhew a'r eira

Y FRON-GOCH.

Mi welais eithaf garw hin,
Yr awel oedd yn arw,
Y rhew yn llym a'r eira'n flin,
A buais bron a marw.

WILLIE.

A gefaist ambell ddrws i droi
I chwilio am ymgeledd
A gefaist ambell law i roi
Briwsionyn o drugaredd?

Y FRON-GOCH.

O do, yn ateb i fy nghri,
Rhyw eneth fach mor dirion
Agorai'r drws i ngroesaw i,
A llon'd ei llaw o friwsion.

A thrwy y ffenest mewn yr awn,
A nghalon fach yn crynu,
A dawnsio ar y bwrdd a gawn,
Heb elyn i'm dychrynu

WILLIE.

E'le cysgit ti, fy mrongoch gu,
Ar y nosweithiau oerion.
Pan dros y coed yr eira'n gnu
A ledai 'i esgyll gwynion?

Y FRON-GOCH.

Ym mol rhwy glawdd y cysgwn i,
A mwswm clyd fy ngwely,
A chlywn yr eira ar fy mhlu
Yn disgyn nes i'm gysgu.

A'r bore awn o ngwely glân
I maes i hèl elusen;
Rhyw hadau a phryfettach mân
A bylent fin fy angen.

WILLIE.

Mi deimlais drosot lawer hwyr—
Dy wel'd mor llwyd dy anel,
A'th aden fach yn llipa lwyr
Yn crynu yn yr awel.

Y FRON-GOCH.

Mae'r rhôd yn troi, mi wn yn dda
Fod Gwanwyn wedi nesu;
Mae geni' gymhar dros yr ha,'
Ac arnaf chwant i ganu.

WILLIE.

Rhywdd hynt i chwi eich deuoedd lân
I fagu'ch teulu hawddgar
Na dduged neb eich wyau man,
I beri i chwi alar.

Tua'n ty rho eto ambell dro
Pan allot gan ofalon,
A chân dy ofid oll ar flo,—
Mae misoedd haf yn hirion.

M.

"CYFANSODDIADAU BUDDUGOL YN EIDDO Y PWYLLGOR."

MR. GOL.—Gwelais ys ychydig yn ol sylwadau ar y testyn uchod gan ryw un nad wyf yn bresenol yn cofio ei enw, nac ychwaith yn mha newyddiadur y gwnaeth ei sylwadau; ond nid oes yn y naill na'r llall o'r pethau yna yr un pwys. Yr oedd ei sylwadau yn deilwng o sylw ac hefyd o gydweithredigaeth. Nid oes yr un frawddeg erioed wedi profi yn fwy dinystriol i lwyddiant gwybodaeth na'r frawddeg fechan "Y Cyfansoddiadau Buddugol yn eiddo'r Pwyllgor." Nid yw cyfansoddiadau goreu y genedl, o herwydd y rheol hon, yn werth *dim* i neb, braidd, o herwydd mae y pwyllgorau ar ddenedd y geiriau uchod yn cadw pawb draw. Maent fel ei yn y preseb; ni wnant fwyta eu hunain, ac ni adawsant ereill i wneyd hyny. Ni chyhoeddant y cyfansoddiadau buddugol, ac ni adawant ereill i wneyd felly. Beth a all fod yn fwy afresymol a gwrthun na hyn? Pwy reswm a all fod gan ddynion dros y fath ymddygiad bawaidd? Maent yn colledu ereill heb wneyd y gradd lleiaf o ddaioni iddynt eu hunain. Onid ydyw un o amcanion penaf ein Eisteddfodau yn cael ei ddinystrio wrth ymddwyn fel yma? Onid yr amcan mawr sydd genym wrth bleidio Eisteddfodau mawrion a bychain, ydyw dyrchafu gwybodaeth a moesoldeb ein cydgenedl? O'r byn lleiaf, dyna ddylai fod; ond yn awr yn gymaint a bod y pwyllgorau yn arfer y frawddeg uchod, braidd yn ddieithriad, y maent yn cadw y cyfansoddiadau buddugol pa rai ddylai fod y goreuon, mewn tywyllwch oesol. Y mae yn anheg â'r cyfansoddwyr aflwyddianus i gadw cynyrchion buddugol unrhyw Eisteddfod heb eu cyhoeddi, gan eu bod drwy hyny yn cael eu hymddifadu o weled yn mha le yr oedd y cyfansoddiadau buddugol yn rhagori ar eu heiddo hwy, a thrwy weled hyny, pe celent, buasent yn aduog i ochelyd yr un gwallau yn y dyfodol; ac hefyd y mae cyhoeddi cyfansoddiadau buddugol yn milwrio yn erbyn rhagfarn yr aflwyddianus. Pa ryfedd i fod

llawer yn teimlo yn anfoddlon i'w tynged yn ngwyneb na chânt weled llinell byth o'r cyfansoddiad neu'r darnau buddugol. Nid oes ganddynt ond chwaeth a thystiolaeth noeth y beirniaid i ymorphwys arno eu bod yn cael tegwch, ac nid ydym yn gweled i fod hyny mewn un modd yn ddigonol i ddyn a fyddo wedi llafurio yn galed i gyfansoddi. Tegwch fyddai cael y buddugol a'r anfuddugol allan, a'i pwyso yn deg yn "ngwyneb haul a llygad goleuni." Byddai hyny yn fanteisiol i bob beirniad dihoced ag a fyddo yn deall ei waith:—

Yn rheg bo'r frawddeg ddifri—mae'n salach
Mewn sylwedd na gwegi,
Dynion am ladd daioni,
Yw y gler a'i harfer hi.

Hyn garwn, cael y gorau—i'r golwg
Er gweled ein hawliau,
Dyna'i gyd, er mwyn y gau,
Ei rodiad i'r iawn rwydau.

Post Office, New Tredegar. IOAN DDEWR.

ANFONWCH AM Y GAS-FITTER.—Mae'r Parch Newman Hall wedi anfon i'r *New York Independent* hanes digwyddiad a gymmerodd le yn ddiweddar yn un o'r cyfarfodydd oedd yn cael eu cynnal ganddo ef. Yr oedd *free-thinker* (rhydd ymofynwr) yn digwydd bod yn bresennol, yr hwn a gododd i fyny ac a ddywedodd ei fod ef wedi dyfod yno i glywed yng nghylch dirwest, ond yn ei farn ef yr oedd y dyn a ddarganfyddodd gas wedi gwneuthur mwy tu ag at oleuo'r byd na'r holl offeiriaid gyd â'u gilydd. Cymmerodd cynhwrf mawr le ar y sylw hwn, ond darfu i gyfaill i Mr. Hall ar unwaith ymhwedd am gael gwrandawiad teg hyd yn nod i wrthwynebydd; ac yna wedi cael i fyny ei hunan dywedodd; "Mr. Cadeiryda—Yr wyf fi dros ryddid meddwl a rhyddid llafar; ac y mae gan y boneddwr draw hawl i feddwl ac i lefaru gymmaint a minnau. Dywed y boneddwr acw ei fod yn ystyried fod y dyn a ddarganfyddodd gas wedi gwneuthur mwy tu ag at oleuo'r byd na'r holl offeiriaid. Wel, os hyny yw ei opiniwn, y mae ganddo hawl i'w ddal a glynu wrtho. Ond, nad beth am ein gwahanol farnau, y mae amser yn neshau atom oll, yr hwn a elwir genym yn farwolaeth, pan y mae y rhan fwyaf o ddynion yn tueddu i fod dipyn yn ddifritol, ac yn hoffi cael cyngor a chysur gyd a golwg ar y byd y maent yn wynebu arno. Yn awr, pan fyddo'r tymhor hwn yn dyfod at ein cyfaill, mi a'i cynghorwn i anfon am y *gas-man*." Dilynodd cyffro mawr ac arwydd cyffredin o gymmeradwyaeth yr araeth hon, yr hon, meddai Mr. Hall, oedd yn well na phregeth, ac yn dra annhebygol o gael ei hanghofio. Ychwanegir ganddo fod plant tafodrydd y gymmydogaeth lle cymmerodd y digwyddiad le, pan mewn pellder diogel, yn gwaeddi ar ol y dyn, o gylch corneli yr heolydd: "Anfonwch am y *gas-fitter*."

Y. T., MERTHYR.—Yr ydych yn meddwl yn iawn. Camsynied wnaeth yr awdur. Y *Three Estates of the Realm* yw y Bendefigaeth, yr Offeiriadaeth, a'r Cyffredin. Nid yw'r brenin neu'r frehiness ddim yn *Estate*. Mae llawer gyda awdwr yr erthygl y cyfeiriwch atto wedi gwneuthur yr un camsyniad.

Atteb i ofyniad "Colier ar Hirwaun" yn tudal. 48, gan J. T. o Aberdar:—Ochr y llestr a gynwysai dri chymaint fyddai 17.3 +; neu 12 × 12 × 12 × 3 = 5184, *cube root* yr hwn yw 17.3 +.

ATTEB i ofyniad "Ysgolfeistr" yn tudal. 48:—Dywed Evan Davies, Hendy'r Neuadd, fod *marbles* Dafydd yn 20; William, yn 60; a John, yn 80. Dywed Thomas Thomas, o Ysgol Rhydcymere, fod *marbles* Dafydd yn 60, William 180, a John yn 240.—Yn awr pu'n o'r ddau ysgolhaig hyn sydd yn iawn? Y mae un o honynt.

LLINELLAU UWCH BEDD MANOD WYLLT.

Ow! Manod Wyllt, a mwynwych—o galon,
Pwy goelia er edrych!
Ar dy fedd, fod dy wedd wych
Yn ei hirnos mewn oernych?

Un o goeth Feirdd Llangeitho—enhuddwyd,
Gwir haeddawl yw cwyno;
Ond dal heb attal eto
Wna ei waith a'i araeth o.

A chan ei wlad fad e fydd—ei enw
Yn anwyl tra Phrydydd,
Llon eirian a Llenorydd;
A gwen deg, a huan dydd

Mai 9fed, 1868. C. A.

MARWOLAETHAU.

Chwefror 17eg, pregethwyd yn y Cemetery, yn Aberdar, gan Mr. Jones, gweinidog yr Hen Dy Cwrdd, ar achlysur angladd Mary, merch John Jones, 20 Chapel-street, Aberaman, yr hon oedd yn saith oed; a Henry, mab Wm. Davies, Margam Street, Aberdar, yn 4 mlwydd oed. "Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

Chwefror 21ain, yn 20 mlwydd oed, o'r rheumatism, Timothy, mab Evan a Hannah Evans, Pantyfen, plwyf Pencarreg, Swydd Gaerfyrddin, ac wyr Dr. Davies, o Blaendernyn. Dydd Mercher canlynol ymgynullodd tyrfa liosog i'r angladd, pryd y gweinyddodd y Parch. T. Thomas, o Bantydefaid, yn y ty gartref. Ei destyn oedd 2 Tim. ii. 19. Pregethodd yn rhagorol bwrpasol ar yr achlysur, i'w rieni a'i berthynasau galarus, gan sicrhau eu gobeithion hwy a ninnau. Yna cychwynwyd â'r marw i gladdfa Eglwys y Plwyf. Blinwyd yr ymadawedig ar droion gan y clefyd y bu farw o hono yn agos i wyth flynedd. Yr oedd yn ddyn ieuanc geirwir a didwyll. Ni ofnai ddywedyd y gwir, hyd yn oed pe byddai hyny yn ei erbyn—rhinwedd werthfawr mewn pawb, a gobeithiol mewn dynion ieuainc. Pan y caniatai ei iechyd, cyrchai yn wastad i'r Ysgol Sul, ac yr oedd yn derbyn yr YMOFYNYDD yn gysson. Yr oedd yn ddarllenwr craffus, deallus, a chofus. Dyddaner ei rieni hiraethlawn â phawb o'i berthynasau â'r gobaith gwynfydedig i'r cyfiawnion sydd yn Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist, set y cawn ailgyfarfod mewn byd lle na bydd na dolur nac angeu i gyfarfod â neb mwy! Yr un fath obaith cysurus wnaeth i'r hen fardd Iolo Morganwg ganu;—

"Er gorfod rhoddi'n brawd yn awr,
Dros amser bach yn llwch y llawr,
I orphwys yn y bedd;
Ar adfer i'n serchiadau cawn,
Ei weled mewn gorfoledd llawn,
Yn iach, yn hardd ei wedd."

Castell. D. JONES.

Chwefror 27ain, bu farw Thomas, unig ac anwyl fab Edward Edwards (Edward, Garwdylau), Harriet Street, Aberdar, yn 20 mlwydd oed. Achoswyd ei farwolaeth trwy anhap truenus a gafodd y dydd o'r blaen ar gledrffordd Cwmni'r Gadlys. Cyflawnai y swydd o *breakman*, ac ar y dydd crybwylledig wedi bachu'r trên wrth dres y wageni a rhoddi y *signal* i gychwyn, neidiodd gyda'r bwriad o fyned ar un o'r *buffers*, ond yn anffodus methodd yn ei amcan, a syrthiodd yn groes i'r gledren. Aeth y trên drosto, gan fathru ei ddwy glun, a rhwygo'r cnawd oddiar y corff. Cadwyd trengholiad yn y *Full Moon* gan y *deputy coroner*, J. Williams, Ysw., a dychwelwyd y rheithfarn o "Accidental Death" Yr oedd y gwr ieuanc yn un a berchid yn fawr fel y tystiai y lluaws mawr a ddaeth yn nghyd dydd Llun i hebrwng ei gorph tua mynwent bellenig eglwys Penderyn. Yr oedd yn ddyn sobr, diwyd a diniwed iawn; yn eithriad hapus oddiwrth lawer o ieuenctyd yr ardal; yn ddarllengar, yn hoff o'r Ysgol Sul ac o wasanaeth y capel; yr hyn sydd yn ddiau yn ystyriaeth gysurlawn yn bresenol i'w dad a'i fam alarus. Mae colli unig fab, ufudd, serchog, anwyl, yn brofedigaeth chwerw iawn; ond oh! y mae tristwch trymach nag hiraeth yn dyfod i gyfarfod a rhai. Am hyny, diddaner chwi yn eich galar; na alarwch fel rhai heb obaith. Ymdrwsiwch, ymbaratowch ar gyfer cydgyfarfod dedwydd. "Yn nghanol ein bywyd yr ydym yn angeu."

Mawrth 1af, bu farw Gwenllian Davies, gwraig David Davies, Mountain Ash (gynt o Benrhiwceibr), yn ei 78 mlwydd oed. Claddwyd hi y dydd Iau canlynol yn cemetry Mountain Ash, gweinidog Hen Dy Cwrdd, Aberdar, yn cyflawni y gwasanaeth angladdol. Arferai gyrchu yn rheolaidd iawn er yn 13 oed yr holl flordd tua'r Hen Dy Cwrdd, lle y derbyniwyd hi yn gyflawn aelod yn 1823. Hi ydoedd yr aelod henaf er ys llawer dydd yn awr. Achwyniad cyffredin y dyddiau presenol, pan y mae mwy o ymgais efallai am esgusodion dros beidio myned i'r cwrdd nag am resymau dros fyned, yw, fod y plant yn fach. Nid felly y gwnaeth hi; cariai'r bach gyda hi a pharai i'r llall gerdded. Fel y gallasid disgwyl yr oedd yn un allasai roddi rheswm am y gobaith oedd ynddi. Ac yr oedd galw mynych arni i wneuthur hyny, oblegid yn ei hardal hi ychydig goleddent y syniadau Undodaidd, a llai na hyny feddent yr un sel a hi dros egwyddorion ei phroffes. Cafodd angladd lluosog iawn, a dangoswyd parch neillduol i'w choffadwriaeth trwy gau'r siopau a thynu'r *blinds* dros y ffenestri yr holl ffordd. Mae'n gorphwys bellach, yn gorphwys yn y ty rhagderfynedig; ond mewn gwir ddiogel obaith am adgyfodiad i fuchedd dragywyddol. Gan hyny, caffed yr hen wr, cydymaith ei bywyd, a chyd-ddygydd ei llawenydd a'i thristwch am tua 55 mlynedd, nerth i ymdawelu yn ngwyneb yr ymadawiad presenol, ac i ymddiddanu â'r diddanwch sydd oddi uchod. Ni fydd yr ymaniad ddim yn hir; nid yw y chwaer anwyl ond wedi blaenu ychydig bach; byddwn ninau yn canlyn yn y man. Mae'r Iesu wedi myned o'r blaen i baratoi lle i ni; am hyny, byddwn barod.

Mawrth 8fed, Anne, gwraig Rowe, 16 Mary Street, Merthyr Tydfil, ac unig ferch i John Thomas, neu Sion Dafydd Tomos Gryffydd, o Drecynon, Abardar, yn 38 mlwydd oed. Yr oedd yn fenyw dawel iawn a diniwed, diwyd a rhinweddol, yn meddu ar gylch helaeth o gyfeillion, y rhai a goffant am ei henw gyda phrch. Caffed ei gwr, a'i thad, a'i brawd, yn y trallod sydd yn naturiol i'r amgylchiad, y fraint o deimlo'r dyddanwch sydd yn yr efengyl, a nerth i ddywedyd. Ewyllys yr Arglwydd a wneler. Claddwyd hi yn Cemetery Aberdar.

Mawrth 10fed, Thomas, mab ieuaf Llewelyn a Mary Llewelyn, Union Street, Aberdar, a brawd un a goffawyd ar dudalen 276 o'r gyfrol ddiweddaf o'r YMOFYNYDD, yn 8 m's oed.

"Farewell, dear youth! farewell, till we above
Meet in the peaceful realms of light and love!
Grain hid in earth repays the peasant's care.
And evening seems but set to rise more fair!"